

ECO'R WYDDFA

Rhif 223

MAI 1996

Pris 30c

CYTUNDEB NEWYDD Antur Waunfawr


Mae Gwasanaeth Ail-gylchu Caernarfon, a reolir gan Antur Waunfawr, yn dathlu ar ôl iddyn ennill cytundeb ail-gylchu hanfodol a fydd yn atgyfnerthu eu partneriaeth efo'r awdurdod lleol.

Bu Gwasanaeth Ail-gylchu Caernarfon yn llwyddiannus gyda'u tendr ar gyfer y cytundeb ail-gylchu a hynny yn wyneb cryn gystadleuaeth oddi wrth y sector breifat. Seiliwyd y llwyddiant yma ar waith da Antur Waunfawr, yn enwedig y cynllun ail-gylchu papur swyddfa, dros y deunaw mis diwethaf.

Dywedodd Huw Davies, rheolwr Gwasanaeth Ail-gylchu Caernarfon: 'Dengys hyn ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Arfon i'w Strategaeth Ail-gylchu

gweithio. Mae Antur Waunfawr erbyn hyn yn ddigon hyderus i gystadlu ochr yn ochr â chwmnïau masnachol lleol, a llwyddo yn y fenter. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r gweithwyr yn falch iawn o'r llwyddiant ac edrychwn ymlaen at fynd o nerth i nerth.'

Bydd Cynllun Busnes Antur Waunfawr yn cynnwys strategaeth tymor hir i dywys y busnes yn ei flaen i wyrddo'r 21 ganrif. Byddant hefyd yn cydweithio efo Cyngor Gwynedd a'r Cynghorau Cymuned i sicrhau y bydd ystyriaethau



Michael Hughes a Steffan Ashton yn symud crât o wastraff i'w ail-gylchu.

a'i gweledigaeth ehangach. Mae hefyd yn tystiolaethu i gyfraniad Gwasanaeth Ail-gylchu Caernarfon at ddatblygiad cynladwy yn y gymuned. Rydym wedi profi ein bod yn gallu integreiddio pobl ag anabledd dysgu tra'n rhedeg busnes gwyrdd, ffyniannus.'

Bydd Gwasanaeth Ail-gylchu Caernarfon yn gweithredu o'r Ganolfan Ail-gylchu ym Mangor ac yn creu cyfleoedd hyffordd a chyflogaeth pellach, tra'n sefydlu canolfannau ail-gylchu newydd yng nghymunedau Arfon.

Dywedodd Menna Jones, Prif Weithredwraig Antur Waunfawr: 'Mae ennill y cytundeb pwysig yma'n profi fod ein gweledigaeth holistig o ddatblygu cymunedol yn

Gweinidog Newydd

Mae aelodau Capel y Rhos, Llanrug, wedi rhoi galwad i'r Parchedig Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon, i fod yn weinidog ar yr eglwys. Ag yntau wedi derbyn ymddeoliad cynnar o'i swydd gyda'r heddlu, bu Mr Hughes, ers 1991, yn weinidog rhan-amser gan gynorthwyo'r Parchedig Harri Parri yn Seilo, Caernarfon.

Wrth ymgymryd â'i waith yn Llanrug, bydd y Parchedig Dafydd Hughes hefyd yn parhau yn gyd-weinidog yn Seilo. Mae'n debyg y bydd yn dechrau ei weinidogaeth yn Llanrug yn gynnar ym mis Mai, er bod rhaid cadarnhau'r trefniant newydd yng Nghyfarfod Misol nesaf yr Henaduriaeth ganol y mis.



Gareth Griffiths a Michael Jones â'u sacheidiau o bapur gwastraff.

Agenda 21 yn flaenllaw pan yn trafod polisi a strategaeth.

Am fwy o wybodaeth

cysylltwch naill â Menna Jones (01286) 650721, neu Huw Davies (01286) 831640.

Cae Chwarae Newydd

Mae ymdrech ar droed yng Nghaeathro i berswadio Cyngor Gwynedd i ddarparu cae chwarae newydd yng nghanol y pentref. Mae Cyngor Cymuned Waunfawr a'u cynrychiolydd lleol, y Cynghorydd Eurig Wyn, yn cefnogi'r alwad dros gae chwarae, naill ai gyferbyn â'r hen swyddfa bost, neu y tu ôl i'r tai cyngor.

Er bod yna faes chwarae ar gyffiniau'r pentref, ac yno gae pêl-droed ac offer pwrpasol, mae llawer o'r farn nad yw hwnnw na chyfleus nac addas erbyn heddiw. Pan roddwyd y cae hwnnw yn rhodd i'r pentref gan berchennog Plas Glangwna wedi'r Ail Ryfel Byd, nid oedd llawer o drafnidiaeth ar y ffordd drwy'r pentref. Roedd yn ddigon diogel i'r plant groesi'r lôn.

Erbyn heddiw mae pethau wedi newid. Mae'r drafnidiaeth trwm a chyflym yr A4085 yn ei

gwneud yn beryglus i'r plant lleiaf fynd a dod i'r cae. Ac oherwydd pryder am ddiogelwch eu plant, mae rhieni heddiw yn naturiol yn bryderus o adael i'w plant chwarae hanner milltir o'u cartrefi.

Bu rhai yn galw ers deng mlynedd ar Gyngor Arfon i ddarparu cae chwarae newydd. Ond, er i sawl pentref arall gael cyfleusterau o'r fath, ni wnaed dim yng Nghaeathro. Nid oes hyd yn oed balmant o'r pentref at y Garej, lle mae'r unig siop erbyn hyn. Tybed wedyn na ellid bod wedi gwneud gwell defnydd o'r arian a wariwyd ar greu cylchfan flodeuog ger y Garej.

Ofnir bod diffyg cyfleusterau a gwasanaethau, megis siop ac ysgol, yn creu bygythiad i ddyfodol rhai o bentrefi bro'r Eco fel aml i fro arall yng Nghymru heddiw. Gobaith trigolion Caeathro yw y bydd cae chwarae cyfleus a diogel yng nghanol y pentref yn un adnodd a fydd yn help i gadw teuluoedd ifanc yn y pentref am flynyddoedd i ddod.

Dymunwn yn dda i'r ymgyrch, a hyderwn y bydd Cyngor Gwynedd yn ymateb i'r gri sydd i'w chlywed yng Nghaeathro.



Rhai o blant pentref Caeathro sy'n dyheu am gae chwarae newydd.

ECO'R WYDDFA

Rhif 223
MAI 1996

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 30

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MAI 20

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MEHEFIN	MAI 30	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 27	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 5	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 26	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 31	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 28	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)

DEINIOLLEN:

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Y postmon yn fy nghyfarch, 'Ydach chi'n cael eich pen-blwydd? Ynteu llawer o ffrindiau sydd gynnoch chi?' pan welodd nifer fawr o lythyrau i mi un bore. Wel, na, dydw i ddim yn cael fy mhen-blwydd ond, oes mae gen i lawer o ffrindiau — ffrindiau *Eco'r Wyddfa* sy'n sgwennu ataf y dyddiau yma. Ydi, mae hi'n amser i chi sy'n byw 'i ffrwdd' anfon eich tâl blynyddol ataf. A gair yw hwn atoch chi yn Llundain, Manceinion, Bishop Auckland, a llawer man arall, i ddiolch am eich geiriau a'ch cyfarchion caredig ynghyd â'ch arian.

Galwad ffôn un bore Sul a'r llais yn dweud — 'Ydach chi ddim yn fy nabad i, rydw i'n ffonio o Corby.' Eich nabad? Wel ydw debyg iawn, a finna yn gweld enwau bob un ohonoch chi bob mis wrth bacio'r *Eco* i chi. Sgwrs ddifyr yn dilyn am Nant Peris ers talwm. Galwad ffôn arall a sgwrs efo cyfaill o Harrogate. Cerdyn blodeuog tlws gan un yn barchus iawn ohonof a'm galw yn 'Madam'. Llythyr ddod yn anfon cofion y darlennydd o Plymouth ac yn mynegi ei gwerthfawrogiad o'r *Eco*, a sôn am y Gymdeithas Gymraeg yno. Byddai'n hynod ddymunol a diddorol cael gair gan rai ohonoch yn dweud ychydig o'ch hanes. Beth amdani?

Do, fe sylwais ac fe glywais i

amryw ohonoch gael profedigaethau a cholli anwyliaid yn ystod y flwyddyn aeth heibio, ac efallai bod y llinyn cyswllt â'r ardal yn mynd yn llai. Derbyniwch fy nghydymdeimlad cywir iawn â chi.

Edrychaf ymlaen at glywed gan yr ychydig ohonoch sy'n weddill heb anfon eich tâl hyd yma. Rwy'n siŵr y byddaf yn clywed gennych yn ystod y dyddiau nesaf.

Roedd yn dda clywed bod rhai ohonoch yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn. Mae'n amlwg bod yr *Eco* yn cael croeso mawr o Loegr a Chymru a hefyd yn Awstralia a Canada.

Diolch i chi am eich ffyddlondeb, eich cefnogaeth, a'ch rhoddion.

Cofion cynnes atoch i gyd,
OLWEN LLYWELYN

Mynwent Newydd

Oherwydd nad oes yna fawr o le ar ôl ym mynwent y plwyf, mae Cyngor Plwyfol Eglwysig Eglwys Santes Helen, Penisarwaun, wedi prynu'r cae sy'n gyfochrog â'r fynwent bresennol. Golyga hyn na

fydd rhaid i deuluoedd yn y plwyf ddefnyddio mynwent arall tu allan i ffiniau'r pentref. Fel y gwyddoch nid mynwent i Eglwyswyr yn unig yw mynwent y plwyf, mae'n fynwent ar gyfer yr holl blwyfolion.

Apeliad arnoch felly, yn enw'r Cyngor i anfon ataf unrhyw roddion, boed fach neu fawr, tuag at y gost o gynnal y fynwent newydd hon. Diolchaf ymlaen llaw am bob rhodd, a gallaf eich sicrhau y bydd pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi.

Y Parchg Tegid Roberts

Arwel, Llanrug, Caernarfon,
Gwynedd LL55 3BA

DIOLCH

Dymuna Mrs Jones-Evans, 3 Hafan Elan, Llanrug, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr



STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Wavell Roberts CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

Y Prawf Newydd

Bydd raid i bawb sy'n sefyll y prawf gyrru lwyddo mewn prawf ysgrifenedig hefyd o'r haf hwn ymlaen. Mae o leiaf un o hyfforddwyr gyrru yr ardal yn fwy na pharod ar gyfer y drefn newydd.

Mae Richard Hughes o Ysgol Yrru Bethel wedi paratoi rhaglen gyfrifiadurol sy'n cynnwys oddeutu 650 o gwestiynau. Mae holl elfennau'r prawf newydd wedi eu cynnwys o fewn y cwestiynau hynny. Caiff y dysgwyr eu holi ynglŷn â phethau fel diogelwch, arwyddion traffig, dogfennau, ymwybyddiaeth o beryglon ar y ffordd, a'u rheolaeth dros y cerbyd.

Mae'r rhaglen gyfrifiadurol yn galluogi Mr Hughes i roi prawf enghreifftiol i'w gwsmeriaid. Bydd modd gweld ar unwaith a yw'r atebion yn gywir ai peidio, fel y gall y dysgwr drafod unrhyw gamgymeriad gyda'r hyfforddwr.

Bydd yn amlwg o fantais i'r gyrrwr newydd gael cyfle i ymgyfarwyddo ag elfennau'r prawf newydd cyn diwrnod y prawf go-iawn.

DRAENOG

Rhai da ydi'r merchaid 'ma am droi eu llaw at rwbath. Clwad y mis dwythfa 'ma am ddwy ohonyn nhw yn dyfeisio dau ddull newydd sbon o wneud gwaith gwraig tŷ yn haws. Polishio ydi hobi un ohonyn nhw — wrth 'i bodd yn defnyddio eli penelin i roi sglein ar bob dim; ac felly ro'dd hi tua'r Waunfawr 'na ryw ddiwrnod. Brolio mawr ar y polish newydd. Sglein fendigedig ar y dodran, ond yn well na dim, ogle da ar bopeth. Sbio ar y botal i wneud yn siŵr fod yr un polish yn cael ei brynu eto — a goeliwch chi mai 'fabric conditioner' oedd o?

Problem y wraig o bartha' Pontrug (naci, nid yr un sy'n hoffi dawnsio) oedd lymphia yn 'i greff. Trio bob ffordd i gael greff llyfn, ond yn methu — tan yn ddiweddar. Ac yna'r pryd bwyd arbennig hwnnw, a'r teulu cyfan wedi rhyfeddu at lyfnder y greff di-lwmp. Ond, y blas! Bobol bach, y blas! Fuo blas Bisto rioed 'run fath ar ôl defnyddio coffi graniwls i neud greff! Greens yn unig y tro nesa, a dim cig.



BONET PASG PENGWAITH



Ddydd Llun y Pasg cynhaliwyd cystadleuaeth ymysg y preswylwyr i wneud y Bonet Pasg gorau. Fe ddaeth 25 i'r gystadleuaeth o dan feirniadaeth Mrs Kilburn, Maes Padarn.

Aeth y wobwr gyntaf (te mewn bwyty i ddau) i Mrs Grace Williams (canol yn y llun); yr ail wobwr (cael trin ei gwallt) i Miss Mair Miller; y drydedd wobwr (basged o flodau sych) i Mrs Elizabeth Williams (ar y dde); ac fe ddaeth Mr Jack Thomas (chwith) yn bedwerydd gan ennill basged o ffrwythau.

Gwobrwywyd pawb a fu'n cystadlu gydag Wy Pasg a chawsant deisen Pasg a wnaed gan Mrs Margaret Mathews — a glasaid o win! Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw.

MURLUN yn cael cartref

Rhoir mynegiant i ddoniau artistig yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, rhwng 15 Ebrill a 10 Mai pan fydd criw o blant ysgol lleol ac arlunydd profesiynol yn mynd ati i gynhyrchu murlun anferth ar un o waliau'r Amgueddfa.

Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei ariannu ar y cyd rhwng yr Amgueddfa a Chyngor Celfyddydau Cymru, yn syniad newydd i'r Amgueddfa ac fe fydd yn ychwanegu dimensiwn arall tuag at ddehongli hanes y safle i bobl leol ac i ymwelwyr.

'Mae hwn yn brosiect cyffrous iawn i ni yn Amgueddfa Lechi Cymru gan ei fod mor wahanol i bopeth arall sydd gennym,' meddai Julie Williams, Swyddog Hyrwyddo'r Amgueddfa. 'Mae

dau bwrpas i'r murlun: bydd yn ymarfer addysgol i blant lleol sydd wedi cael eu magu yn yr ardal ond nad ydynt erioed wedi meddwl am yr Amgueddfa o safbwynt artistig; bydd hefyd yn atyniad arall i ymwelwyr â'r safle.

Bydd y disgyblion, sydd i gyd ym mlwyddyn 10 yn Ysgol Brynrefail, yn gweithio gyda Dylan Owen o Gaernarfon, sy'n arlunydd profiadol a weithiodd yn gyson gyda phlant ym maes celfyddyd addysgol. Yr unig gyfarwyddyd a roir i'r tîm artistig yw bod yn rhaid i'r murlun adlewyrchu hanes yr Amgueddfa ei hunan, sef hen weithdai Chwarel Dinorwig.

'Bydd Dylan a'r plant yn treulio wythnos ar y safle er mwyn ymgynefino'n llwyr â'r Amgueddfa,' meddai Julie. 'Bydd hyn yn rhoi amser iddynt ymdeimlo â narws y lle. Byddant wedyn yn cynnig tri neu bedwar o syniadau, a bydd un o'r rhain yn cael ei gymeradwyo gan staff yr Amgueddfa. Byddant wedyn yn treulio'r tair wythnos ganlynol yn paentio'r murlun ar wal foel' (wal fewnol yr Ystafell Addysg newydd). 'Hoffwn bwysleisio y bydd y murlun yn cael ei baentio ar wal a godwyd yn ddiweddar ac ni fyddwn yn cyffwrdd ag adeiladwaith gwreiddiol yr Amgueddfa, sydd yng ngofal CADW,' meddai Julie.



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

RALI

GWAITH I WYNEDD

ger Cloc y Ddinas, Bangor
Dydd Sadwrn, Mai 4, 1996
am 11 o'r gloch

Siaradwyr:-

Ieuan Wyn Jones A.S.

Elfyn Llwyd A.S.

Dafydd Wigley A.S.

Y Cyng. Eurig Wyn

Llywydd: Rhodri Davies

Rhowch eich pwysau y tu ôl i'r Rali. Dowch i gefnogi CROESO CYNNES I BAWB Trefnir gan Blaid Cymru

Bistro

LLANBERIS
Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro Nos Wener olaf bob mis

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

O SIAMBAR SELWYN

Diolch i John E. Williams am anfon nifer o englynion diddorol i mi. Dydi o ddim wedi nodi ei hoff englyn 'chwaith, nag enwi'r awduron. Dyma rai ohonyn nhw. Efallai bod rhai o ddarllenwyr y golofn yn gwybod pwy yw'r awduron.

DAWNSIO

Dawnsia'i dad neis a dedwydd — dawnsia'i fam,
Dawnsia'i fwyn chwiorydd,
Dawnsia'i nain fain, ddifennydd,
A dawnsia'i daid nos a dydd.

Englyn Saesneg i'r

BWCI

Winning and swelling his wallet — he bought
A beautiful billet,
But after a bitter bet
The bookie kicked the bucket.

Rwy'n siŵr bod hwn yn gyfarwydd i sawl un — ond fedra i ddim cofio pwy yw'r awdur:

Siôn byw yn rhad, Siôn heb anrhydedd — yn y byd,
Siôn heb bwyll ddigonedd.
Ond Siôn a'r Aelod Senedd
Yr un faint yn yr hen fedd.

Tasg anodd yw paradio englyn. Rydan ni i gyd yn gyfarwydd ag englyn enwog R. Williams Parry i Neuadd Goffa Mynytho:

Adeiladwyd gan dlodi — nid cerrig
Ond cariad yw'r meini;
Cyd-ernes yw'r coed arni,
Cyd-ddyheu a'i cododd hi.

Pwy yw awdur y parodi hwn arno, ys gwn i?

TEISEN BRIODAS

Adeiladwaith dwy ledi — nid cerrig
Ond cyrrants sydd ynddi;
Ernes yw'r hufen arni;
Cawres ddewr a'i crasodd hi.

Ychydig ddyddiau'n ôl roeddwn i'n darllen y llyfr *Rhamant a Hiwmor Tydfor*, sef y diweddar Tydfor Jones a oedd yn hannu o deulu enwog Y Cilie. Bu farw Tydfor yn 1983 pan ddymchwelodd y tractor a'i ladd. Fe ganodd yntau, fel sawl un, englyn crafog ar achlysur priodas Carlo a Deiana. Ond, roedd Tydfor yn rhagweld pethau — roedd o'n broffwyd:

Boed dreifio Carlo 'on course' — rhoed iddi
Drwy'i dyddiau bob ffafors,
A dim hen fisdeminors
Deu Di fydd yn mo'yn difors.

* * * * *

Mae Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen, fel pob Cyngor arall, yn cael cais eithiau am lwybr cyhoeddus gael ei wyro. Weithiau fe gytunwn i wneud hynny a thro arall byddwn yn gwrthwynebu. Yr hyn sy'n bennaf gyfrifol am i ni wneud ein penderfyniad yw: *a fydd y gwyrdd yn hwylustod i gerddwyr yn hytrach nag i berchennog y tir*. Os bydd y gwyrdd yn achosi mwy o anhwylystod i gerddwyr yna byddwn bob tro yn gwrthwynebu'r gwyrdd ac, wrth reswm, fe ddylem wneud hynny.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1943 (a gynhaliwyd yn yr hen 'County Theatr' — yr 'Octagon' heddiw), testun yr englyn oedd 'Y Llwybr Troed'. Roedd 'na 237 wedi cystadlu. Enillwyd y wobr o £2 gan J. T. Jones (brawd i'r diweddar R. E. Jones a fu'n brifathro Ysgol Dolbadarn am flynyddoedd). Dyma'r englyn:

Y LLWYBR TROED

'Rwy'n hen a chloff, ond hoffwn — am unwaith
Gael myned, pe medrwn,
I'm bro, a rhodio ar hwn;
Rhodio, lle gynt y rhedwn.

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

Llongyfarchiadau i Miss Valmai Davies, 10 Bro Elidir, ar ei phenodiad yn bennaeth Ysgol Hiraol, Bangor. Bydd yn cychwyn ar ei dyletswyddau newydd ym mis Medi. Rydym yn ymfalchïo yn ei llwyddiant a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Y Ganolfan: Cynhelir Cyfarfod Blyneddol y Ganolfan nos lau, 9 Mai, am 7 o'r gloch. Mae hwn yn gyfarfod agored i bawb. Dyma gyfle i bawb chwarae eu rhan yng ngweithgareddau y Ganolfan. Dewch i gefnogi.

Capel Sardis: Yn flynyddol mae Capel Sardis yn cynnal Cyfarfod Pregethu ar y Sulgwyn ac nid yw eleni yn eithriad. Y dyddiad eleni yw dydd Sul, 26 Mai, a'r pregethwr gwadd fydd y Parchg Huw Dylan Jones o Langwm. Bydd yr oedfaon am 10, 2 a 5.30 o'r gloch. Bydd croeso i bawb o bob enwad i ymuno ag aelodau Capel Sardis yn y gwasanaethau hyn.

Dymuniadau Da i Mr Emrys Hughes, Groeslon Uchaf, sydd wedi derbyn llawdriniaeth i'w glun yn Ysbyty Lerpwl yn ddiweddar. Dymunwn adferiad buan iddo.

Carreg Filtir: Llongyfarchiadau mawr i'r Parchg Idris Thomas, mab Mrs Thomas, 1 Bro Elidir, ar ddatlu un mlynedd ar hugain fel offeiriad ym mhlwyf Clynog, Llanaelhaearn a Threfor yn ddiweddar.

Pencampwriaeth Eto: Llongyfarchiadau mawr i Seindorf Arian Deiniolen ar eu llwyddiant mewn cystadleuaeth bandiau pres Cymru yn Aberystwyth yn ddiweddar. Deallwn y byddant yn cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth Prydain gyfan sydd i'w chynnal ym mis Medi.

Siop Allt Ddu: Y peth nesa at siop go-iawn sydd gan Dinorwig y dyddiau hyn yw y fan wen a welir wedi ei pharcio yn yr Allt Ddu ar benwythnosau. I'r cyfarwydd y person tu ôl i'r cyfan yw Caradog Thomas sydd i'w weld yno yn gyson yn gwerthu da-da a diodydd ysgafn a'r arian yn mynd at waith Seindorf Arian Deiniolen. Gyda'r haf o'n

blaenau a phobl leol ac ymwelwyr yn crwydro o gwmpas y chwarel a'r cyffiniau beth sydd well na sgwrs gyda Caradog a chael rhywbeth i'w fwyta neu i dorri syched ar yr un pryd, gyda'r elw yn mynd at waith da y Seindorf. Gyda llaw, faint dwi'n gael am yr hysbys yma, Caradog?

Tymor Da: Fel cefnogwr o Ddinorwig hoffwn longyfarch tîm cyntaf Clwb Pêl-droed Deiniolen am dymor cyntaf arbennig o dda yng Nghynghrair Gwynedd eleni. Mae wedi bod yn bleser eu gwyllo gyda gêmâu cyffrous a chofiadwy yn ystod y tymor. Hefyd mae'r ail dîm wedi cael tymor da. Daliwch ati bawb sy'n gysylltiedig â'r Clwb gyda'r gwaith da yr ydych yn ei wneud.

Cymorth Cristnogol — 'Credwn Mewn Byw Cyn Marw' yw geiriau trawiadol sydd ar bosteri Cymorth Cristnogol eleni. Mewn byd ble mae rhyfeloedd yn dal i ddangos ei wyneb brwnt a'r diniwed yn dioddef bob tro dylem i gyd ystyried o ddifri gyfrannu at waith pwysig Cymorth Cristnogol. Eleni cynhelir Wythnos Cymorth Cristnogol rhwng y 12fed a'r 18fed o Fai. Er bod capeli ac eglwysi y fro yn gwneud cyfraniad ariannol i'r achos teilwng hwn mae modd i bawb gyfrannu yn ariannol trwy anfon i Swyddfa Cymorth Cristnogol, 33 Ffordd y Coleg, Bangor. Bydd pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi.

Llongyfarchiadau i Mr Glyn Tomos ar ei benodiad diweddar fel rheolwr Gwasanaeth i'r Henoed yn ardal Dwyfor o Gyngor Gwynedd. Bydd hefyd yn gyfrifol am arwain y Cyngor newydd ar bolisiâu yn ymwneud ag anabledd corfforol a synhwyrol. Bydd yn cychwyn yn ei swydd newydd ar y 1af o Fai.

Diolch: Dymuna Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian, ddiolch i'w theulu, ffrinidau a chymdogion oll, am y cardiau, rhoddion a galwadau ffôn; ac i bawb a fu'n ymweld â hi yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddod adref. Llauer o ddiolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ward Glaslyn, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal diflino. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG**
Ffôn: (01286)
675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos



ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth **ALOE VERA**. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel: **Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egni**.
Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b.
am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

'Un funud fach . . .'

Y Ffordd

Mae mwy nag un ffordd o Lanberis i Ddolgellau. Ran amlaf mynd dros y Pass a thrwy Feddgelert wnaif fi, ond mae'n well gan eraill fynd trwy Benygroes a Phorthmadog. Does fawr o wahaniaeth pa ffordd ewch chi: os yw'r naill yn fyrrach, mae'r llall yn well lôn.

Erbyn hyn gwn am ffordd arall eto. Aeth bws tîm rygbi'r Urdd Llanberis â ni o Gaernarfon i Fangor a Cherrigyrdrudion a'r Bala i Ddolgellau cyn troi tua'r de am Lanelli. Druan o'r rhai oedd ar y bws ers iddo adael Pwllheli: wedi dwyauw o deithio roeddent yn bellach o Lanelli na phan gychwynnon nhw! Ond er mor hir y ffordd, cyrhaeddwyd yn ddiogel. Dyna, wedi'r cwbl, y peth pwysig.

Mae yna ryw syniad ar led bod yna sawl ffordd i'r nefoedd hefyd. I lawer, dyna gynnigir gan wahanol grefyddau'r byd: ffyrdd gwahanol sy'n arwain yn y pen draw i'r un man. Mae armywiaeth ar y ffordd, o ran arweinydd ac ysgrythur a chred a moesoldeb. Ond yr un yw pen draw'r ffordd. Dyna'r gred beth bynnag.

Mor wahanol y gwelai Iesu Grist bethau. Honnai ef mai un ffordd sydd i'r nefoedd; un ffordd sydd at Dduw. Ac fel petai hynny ddim yn ddigon, aeth ymlaen i gyhoeddi mai Ef ei hun yw'r Ffordd honno. 'Nid oes neb yn dod at y Tad ond trwof fi,' meddai. Nid oes ffordd arall; dyna fynnai'r Iesu.

Does ryfedd bod Iesu Grist wedi cythruddo pobl ei oes. Roeddent nhw yn deall yn iawn mor syfrdanol oedd ei honiadau amdano ei hun. Meiddiai ddweud na fyddai neb yn cyrraedd y nefoedd heb gredu ynddo Ef a'i ddilyn a'i garu.

Feiddiwn ni gymryd Iesu Grist ar ei air? Nid tasg hawdd mo hynny o fewn ein cymdeithas aml ddiwylliant ac aml grefydd heddiw. Mae gofyn i ni barchu pob barn a chred, ond ar yr un pryd ddal gafael yn y gwirionedd cwbl sylfaenol mai Iesu Grist yw'r Ffordd, a'r Unig Ffordd.

Mae arnom angen nerth a gras Duw i wneud hynny.

JOHN PRITCHARD

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Llwyddiant leuenctid: Llongyfarchiadau i dri o ieuenctid y pentref sydd wedi llwyddo mewn gwahanol feysydd yn ddiweddar. Caryl Owen, Cefn Ffrwd, ar basio arholiad piano, gradd 6, gyda theilyngdod; i Lowri Williams, Tan y Buarth, ar gael ei derbyn i Ysgol Dawns a Drama Glannau Mersi; ac i Dewi Griffiths, Llwyn Eithin, ar gael ei dderbyn yn aelod o Fand Pres Cenedlaethol leuenctid Cymru. Dymunir yn dda iddynt i gyd i'r dyfodol.

Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon a'r Cylch: Daeth cynulliad dda i'r cyfarfod cyntaf ym Methel i drafod ffyrdd o godi arian i gynorthwyo'r Wyl sydd i'w chynnal yng Nghaernarfon ym mis Tachwedd. Etholwyd y canlynol yn swyddogion — Llywydd: Siân Harris; Trysorydd: Goronwy Jones; Ysgrifennydd: Glenys Griffiths; a'r gweddill oedd yn bresennol i fod ar y pwyllgor. Targed y pentref yw £600 ac fe gafwyd nifer o awgrymiadau am wahanol ffyrdd i godi'r arian. Os dymuna unrhyw un gyfrannu yn ariannol, cysyllter efo un o'r swyddogion. Penderfynwyd cychwyn y gweithgareddau gyda Nosen Goffi yn y Neuadd Goffa, nos Wener, 24 Mai. Pris mynediad fydd 50c i oedolion, a'r plant am ddim. Cynhelir pwyllgor nos Fercher, 15 Mai, i drefnu'r Nosen Goffi.

Mae Beti a Seiriol Owen wedi cynnig gwneud taith nodedig ar hyd arfordir Penfro ym mis Mai, gyda'r holl dderbyniadau yn mynd tuag at apêl Bethel. Mae ffurflenni noddi ar gael gan y canlynol: Deilwen Hughes, Delyth Williams, Carys Williams, Geraint ac Ann Elis, Dafydd a Llinos Williams, Rhian Hughes, Sam Davies, Rita Williams, Gwyneth Jones, Eirlys Sharpe, Nora Parry, Bet Owen, a swyddogion y pwyllgor apêl.

Eisteddfod Bethel 1996: Nos Fawrth, 25 Mehefin, am 7.30 o'r gloch, cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd i drafod trefniadau Eisteddfod 1996. Estynnir croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn yr Eisteddfod.

Enillwyr Clwb 100 yr Ysgol Gynradd £20: Rhiannon Williams, Rhoslan, 6 Ffordd Bethel, Caernarfon (81); £15: Mrs I. Jones, 14 Bryn Paun,

Llangoed, Môn (7); £10: E. Watkin, Ty'n Lôn, Bethel (108); £7: Avril Jones, Minffordd, Bethel (31); £5: J. C. Sturrock, Bryn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Merched y Wawr: Cyfarfu y Gangen yn yr Ysgol, nos Wener, 17 Ebrill, dan lywyddiaeth Gwyneth Jones. Croesawodd yr aelodau a hefyd y Llywydd Cenedlaethol, sef Mrs Rhianwen Huws-Roberts.

Llongyfarchwyd Eirlys a Gwilym Williams, 20 Y Ddôl ar ddathlu eu priodas arian. Hefyd rhai o blant yr aelodau, sef Dewi Griffiths, Llwyn Eithin, ar gael ei dderbyn yn aelod o Fand Pres leuenctid Cymru; Caryl Owen, Cefn Ffrwd, a Meilyr Emrys, 5 Cefn Cynrig, a gymerodd rannau yn y sioe gerdd 'Breuddwyd Roc a Rôl' yn Theatr Gwynedd.

Cynhelir Bore Coffi dan nawdd y Pwyllgor Anabl ar 17 Mai. Fel arfer bydd angen cacennau — gwneir y trefniadau yng nghyfarfod mis Mai. Pasiwyd i gynorthwyo gyda bwyd yn Rali Ffermwyr Ieuaic yng Nglyn-Ilifon ar 18 Mai, o 9.30 o'r gloch hyd 12.30 o'r gloch.

'Brethyn Cartref' oedd pwnc y mis gyda phum aelod yn cymryd rhan, sef Glenys Griffiths: 'Cerddoriaeth' — ac ar ôl ei sgwrs chwaraeodd gadwyn o alawon gwerin ar y ffidil. Elen Ellis: 'Gwaith Llaw — Crosio', a dangosodd ei gwaith crefftus. Mair Read: 'Hel Achau' ar deulu Tyddyn Charles, Llanberis. Eirlys Williams: 'Coginio' a chafwyd blasu y 'dips' gyda phaned ar y diwedd. Beti Owen (heb anghofio ei phriod Seiriol a ddaeth i'w chynorthwyo gyda'r sleidiau): 'Cerdded Clawdd Offa'. Y gwestwagedd oedd Delyth a Carys Williams ac enillwyd y raffl gan Rita D. Williams.

Cafwyd gair gan y Llywydd Cenedlaethol ar y diwedd a

diolchodd am y croeso. Diolchwyd ar ran y Gangen gan Rita D. Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 8 Mai, a'r testun fydd 'Basgedi Blodau Crog' gan Richard Owen.

Enillwyr Clwb 100 y Neuadd mis Mawrth — £20: Jack Foulkes, 6 Tan-y-cae (28); £10: Mary Evans, Swyn Eryri (79); £5 yr un: Emyr Price, 5 Tan-y-ffordd (169); Gwynnaf Williams, Llyfnwy (107); Gerwyn Jones, Eithinog (144); Bessie Ellis, 15 Cremlyn (24); Dennis Harrison, Bakita (181); Eunice Roberts, 4 Y Rhos (218); Siân Hughes, Cae Rhos (6); Nora Parry, 11 Tan-y-buarth (4).

Cymanfa Ysgolion Sul Padarn: Dydd Sul, 5 Mai, cynhelir y Gymanfa yng nghapel Rehoboth, Nant Peris. Bydd cyfarfod y pnawn am 2 a'r hwyr am 6, gyda'r canu dan ofal Mrs Deilwen Hughes, Bryn Ogwen. Bydd bws i gyfarfod y pnawn yn cychwyn o'r Cysegr am 1.30 o'r gloch ac yn dod yn ôl wedi'r te yn y Nant. Mae croeso i bawb ddod ar y bws yn hytrach na defnyddio ceir.

Newyddion o'r Ysgol: Ar ddechrau tymor newydd braf yw cael llongyfarch dwy aelod o'r staff. Dydd Sadwrn, 30 Mawrth, priodwyd Miss Bethan Evans â Mr Geoff Davies yng nghapel Nefyn. Braf iawn oedd cael croesawu Mrs Davies yn ôl atom. Yn ystod y gwyliau hefyd ganwyd mab i Mrs Lola Smart, llongyfarchiadau mawr iddi hithau a'i gŵr Ewan.

Mae tymor prysur o'n blaenau unwaith eto gyda thymor olaf y plant hynaf yn yr ysgol.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon nos Fawrth, 23 Ebrill, i drefnu noson o Barbeciw yn yr ysgol fydd i'w chynnal nos Wener, 21 Mehefin. Ceir mwy o fanylion yn nes at yr achlysur. Trefnir hefyd raffl fawr i'w thynnu yn ystod y tymor a chafwyd nifer o addewidion eisoes am wobrau. Os oes rhywun awydd cynorthwyo mewn unrhyw fodd cysyllter â Mrs Enid Williams, unrhyw riant ar y pwyllgor, neu'r prifathro.



Aelodau tîm dartiau y Bedol sydd wedi cael tymor llwyddianus dros y gaeaf diwethaf. Gweler yr hanes yn llawn ar dudalen 18.

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

★ Tacsî

★ Maes Awyr

CABS
ERYRI

**Yfwch chi
Gyrrwn ni!**

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970

neu ffoniwch ni am ddim ar

National Cabline — Freephone 0800-123-444

CHWILOTA

ATGOFION AM Y FACHWEN



Ugain mlynedd yn ôl, a hynny ar gais ŵyr, y dechreuwyd ysgrifennu yr atgofion hyn gan y diweddar Gwen Closs. Ei chwaer, Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug, a anfonodd y nodiadau i mi rhag ofn y byddai gan ddarllenwyr yr *Eco* ddiddordeb mewn darllen pigion ohonynt. Dylai llawer i nain (a thaid) arall o'r fro ddilyn yr esiampl a rhoi i lawr ar gof a chadw atgofion eu plentyndod a'u dyddiau cyntaf o waith. Mewn oes ble mae'r byd yn newid mor gyflym, mae atgofion fel hyn yn werthfawr fel cofnod hanesyddol o newidiadau cymdeithasol o fewn ein hardaloedd.

Ganed Gwen Closs yn Ty'n Pwll, Y Fachwen, ar ddechrau 1902. Gyferbyn â'r cartref roedd Bron Ceris, lle trigai dwy o athrawesau Ysgol Dinorwig. Un o'r atgofion cynharaf sydd ganddi yw cael ei chario mewn siôl i ardd Bron Ceris i glywed sŵn band yn cario ar draws Llyn Padarn, a gwyllo gorymdaith o filwyr mewn cotiau a chapiau cochion yn martsio i Lanberis ar hyd y ffordd fawr. Roedd tua pedair oed ar y pryd.

Roedd plant y gymdogaeth yn helpu eu rhieni, ac un o'r goruchwylion oedd siopa. Roedd nifer go dda o siopau gwahanol yn ardal y Fachwen a Dinorwig bryd hynny: 'Parkwr tŷ wedi ei droi yn siop oedd Pen y Bwlch. Roedd gan y perchennog "coach and horses" smart iawn a byddai yn mynd i lawr o'r Fachwen i Gaernarfon i siopa; a ninnau'r plant yn rhedeg a gafael yn yr echel tu ôl i'r car i gael gweld ein lluniau di-siâp yn ei sglein.' Siop arall oedd Cwt Huw Jôs Clogwyn Gwyn — crydd: 'Yr oedd ganddo injan cricymalau — un drydan — a dywedai wrthym am afael ynddi â'n dwylo; yntau'n troi'r swits ymlaen nes byddem yn teimlo ein breichiau yn cael eu tynnu gan gryndod.' Tybed oes rhywun o'r darllenwyr all roi eglurhad am beth yn hollol oedd yr 'injan cricymalau'? I gael nwyddau amrywiol byddai'n rhaid teithio

i lawr i Siop Stesion, Cwm-y-glo: 'Siop pob peth — yn fwydydd a thaclau llnau a chelfi at y cynhaeaf. Byddai Robert Williams, y perchennog, yn gwerthu te mewn bagiau papur — te Elidir — a llun o'r Elidir ar y bag. Dyna'r drefn yr adeg honno; te, siwgr, blawdiau, ffrwythau fel cyrains a raisins; i gyd yn dod mewn cistiau mawr, a'r siopwr yn eu pwyso i'r bagiau papur.'

Cwt Dan, crydd arall, oedd Senedd y Pentref. Yno y byddai'r dynion yn ymgynnull am sgwrs ac i roi'r byd yn ei le. Yn agos iddo roedd Cwt Jôs Bach, y barbwr. 'Cwt sinc oedd hwn, a braidd yn fychan; ond dyn bychan oedd Jôs, ac yn gloff. Roedd yn hoff iawn o ganu ac yn un da am straeon digri.' Siop arall oedd Padarn Stores, hen dŷ Rhos y Bel. Mae'n cofio ailadeiladu hwn — rhoi darn newydd ar yr hen dŷ, a chodi llawr uwchben. Bu'n gweini yno am gyfnod ar ôl gadael yr ysgol.

Y cam nesaf oedd symud i Gaernarfon a chael lle i weini unwaith eto yng nghartref rheolwr siop Astons. Cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf oedd hyn, a bwyd yn brin. Byddai'r rheolwr yn cloi'r bwyd ar ôl i bawb gael ei ddog. Buan y symudodd oddi yno i Goleg y Santes Fair ym Mangor — lle pell iawn o'r Fachwen — a byddai'n dianc i

Staff y Gegin, Ysgol Brynrefail



Anfonwyd y llun gan Mrs M. Lewis, Madryn, Llanrug, a oedd yn gweithio yng nghegin Ysgol Brynrefail pan dynnwyd y llun yn 1965. Roedd y bwyd bryd hynny yn cael ei baratoi ar grât fawr a phedwar popty iddi, ac yn ôl Mrs Lewis, roedd yn waith caled gorfod cario glo iddi yn gyson.

dŵr y coleg yn aml er mwyn cael cip ar y Bigil gerllaw'r cartref. Gallai hefyd weld polion 'Marconi' ar ystlys y Cefn Du oddi yno. Ni fu ym Mangor yn hir 'chwaith a symudodd wedyn, y tro hwn at ei chwaer i Lerpwl — a doedd dim gobaith gweld y Bigil na'r Cefn Du oddi yno!

Cawn fwy o 'Atgofion' y mis nesaf.

MUDO I'R 'MERICA

Atgofion pur wahanol a anfonodd Mr Cledwyn Williams, a hynny yn sgil y sylw a wnaethpwyd rai misoedd yn ôl am drigolion o'r ardal yn mudo i bellafoedd byd. Aeth dau o feibion i'w nain a'i daid i Utica ddiwedd y ganrif ddiwethaf, ac y mae'r disgynyddion yn dal i gadw cysylltiad. Mae cyfnith i Mr Williams yn dal i fyw yno — yn 95 oed bellach — ac yn anfon i adrodd hanesion y Nadolig yn Utica pan oedd yn blentyn. Dilyn 'coach and horses' siop Pen y Bwlch wnâi plant y Fachwen, ond yn yr un cyfnod, roedd Cymry Utica yn gyrru 'horse and sleigh' am bum milltir mewn stormydd eira ar Nos Calan er mwyn mynychu 'steddfod a chael y siawns o

siarad Cymraeg â'i gilydd. Byddai'r 'steddfod yn parhau hyd hanner nos — a chroesawu'r flwyddyn newydd i mewn. Yna, byddai'n rhaid dychwelyd gartref er mwyn godro'r gwartheg, cael brecwast, a chychwyn yn ôl unwaith eto i gael ail ddiwrnod y 'steddfod!

Aeth perthnasau eraill i Mr Williams i Granville, Efrog Newydd, a dod yn gyfeillion â'r 'gangster' Jack Red Diamond. Roedd gwraig hwnnw yn Gymraes o Lanfairfechan. A dyna stori ddiddorol fyddai hanes y teulu a'r cyfeillgarwch hwnnw rwy'n siŵr!

CRAIG YR UNDEB

Un ymateb a fu, hyd yn hyn, i'r lluniau (honedig? tybiedig?) o Graig yr Undeb. Mae Mr Eirwyn Williams, Llyncoed, Cwm-y-glo, yn bendant nad Craig yr Undeb sydd yn y llun. Mae'r Graig ar dir ei fferm a bu'n astudio'r llun o bob ongl, gan gerdded o amgylch y Graig i geisio lleoli safle'r camera. Yr unig eglurhad a all gynnig yw fod y llun wedi ei dynnu yn wynebu Brynrefail, ac mai rhan o Foel Rhiwen a welir yn y cefndir ar y chwith, a chreigiau'r Fachwen ar y dde — ond mae'n amheus iawn hyd yn oed o'r lleoliad hwn.

Gyda llaw, Cae Craig y Llyn yw'r enw ar y tir o amgylch y Graig ar weithredoedd cynnar, yn ôl Mr Williams. Mae'n bosibl felly mai Craig y Llyn oedd yr enw gwreiddiol ar Graig yr Undeb.

'HEN FFAIR Y NANT

Sefydliad hen yw ffair y Nant
Er nad mor hen a'r mynydd;
Mae creithiau henaint arno ef,
Ond deil y ffair yn newydd.

Hi ddaeth eleni yn ei thro
M'r llon a 'rioed mewn hanes;
Ca'dd hithau fel yr haeddai'n wir,
Groesawiad perffaith gynnes.

Unfrydedd oedd y llinell aur
A redai drwy y croesaw;
Fe benderfynodd pawb fod rhaid
I lwch bob tŷ ymadaw.

**OSMOND SHAW
DEINIOLLEN**

**GWERTHU
- TRWSIO**

- ★ Teledu ★ Fideo
- ★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

**GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764**

- ★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
- ★ Porches ★ Byrddau Ffasia
- ★ Cladio
- ★ Conserfateris

12 MLYNEDD
O BROFIAD YN Y MAES

I oruchwyliaeth y glanhau
Daeth llu o nwyddau puro,—
Y calch, y paent, yr ysgub wellt,
Y 'Monkey Brand' a'r 'Shino'.

Pobtai y Nant fu'n brysur iawn
Yn paratoi'r danteithion,—
Y bara gwyn, a'r bara brith,
Cacenau'n llawn melusion.

Pob tŷ yn lân, pob cell yn llawn
O bob rhyw fath o luniaeth!
Beth ydyw hyn, ond coron parch
Y teulu, i'w treftadaeth?

Gerllaw y fynwent, cartref llwch
Ffyddloniaid ffair ein hardal,
Corlanau'r row'd, arferiad hen—
Fel deddf yn ddianwadal.

Daeth bore'r ffair, O! fore mawr
Pwysicaf yn y flwyddyn;
Daw pawb o'i wely gyda'r wawr—
Croesawu'r ffair yw'r testun.

Croesawu'r ffair! ca'r Chwarel fawr
Ofalu am ei hunan;—
Dydd gŵyl yw hi; bonheddwr, pawb,
Mae adre'n cyfri 'i arian.

Mae lleisiau creadigaeth Nant
Am oreu yn creu cyffro —
Brefiadau'r myllt, a thrwst y cŵn,
A gadwant bawb yn effro.

'Rol chwys a llafur, lludded mawr
Mae'r defaid dewisedig,
Yn gryno yng nghorlanau'r ffair,
Pob gyr yn wahanedig.

Uwchben ei yr, ei pherchen saif
Yn urddas y pendefig;
A chanmol wna, mai yr fach ef
Yw'r oreu'n gyfleuedig.

'Rol dadleu'n boeth, daw llaw
dau ddyn

I wasgu sêl y pryniant;
Mae'n hanner dydd, a'r defaid oll
O'u celloedd a ollyngant.

O hyn hyd hwyr, ffair bleser yw
Yn ôl hen arfer oesau;
A sonir am hen droion fu
Yn hanes rhai o'r ffeiriaau.

Ar un dydd ffair, caed damwain erch
I'r gascen gadwai'r gwirod,
A'r elfen goch roed gan ŵr call
Yng nghafn y moch yn ddiod.

Dau fochyn tew a'i lleibiodd ef
Nes oeddynt mron yn llonydd;
A'r daith o'r cafn i enau'r cwt
Oedd drech na'u cais anghelydd.

Yn llonder hwyl y galwyd am
Wasanaeth rhwy ddau b'lismon,—
'O down ar frys mae yma ddau
O bobol Môn yn feddwon.'

Daw'r nos i'w dal, goleuir hi
Gan lampau chwyren, crogedig,
Ac yn eu gwawl mae'r 'Indian rock'
Fel meini caboledig.

'O! 'pull away,' mae 'prize' bob tro,
O! 'pull away,' chwi hogiau.
Mae merched Nant a Choed-y-ddôl
Yn disgwyl llond eu breichiau.'

Dirywia'r ffair, gor-wagedd hurt
A lywia hyd ei therfyn;
Yn herwydd hyn, lawn digon yw
Un ffair yn gorph y flwyddyn.

Ffarwél hen ffair, dy ddyddiau fo
Heb rif, yn llawn anrhydded;
Yn deilchion boed y Wyddfa fawr
Pan gwrddi di â'th ddiwedd.

Nant Peris H.L.
Anfonwyd y gerdd gan Mr
Gwilym Roberts, Fron Oleu,
Llanberis. Fe'i copiwyd o gopi
o'r *Perl* fis Rhagfyr 1911.

Sylwch fel mae'n sôn am y
glanhau a'r paratoi yn Nant Peris
cyn y Ffair. Beth tybed oedd y
'Monkey Brand'?

Oes gan rai o'r darllenwyr
atgofion neu luniau o Ffair
Nant?

Anfonwch air at Dafydd
Whiteside Thomas, Bron y
Nant, Llanrug (01286) 673515
gydag unrhyw wybodaeth neu
ymholiad ynglŷn â'r golofn hon.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Plant Ysgol Sul Undebol Bosra fu'n cyfrannu at Gymanfa'r Annibynwyr.

Newyddion o'r Ysgol Gymuned:

'Paned o De' yw thema'r Babanod
am y tymor, ac fel rhan o'u
gweithgarwch buont draw i'r Gegin
Fach yng Nghaernarfon yn cael
paned er mwyn profi naws caffi a
chael y profiad o ofyn, a thalu, am
baned. Wedi dychwelyd aeth y
plantos draw i'r Siop Gron i brynu
nwyddau ar gyfer caffi'r dosbarth
gan wahodd yr athrawon, yn eu tro,
draw i'w caffi.

Fel rhan o'r thema Blwyddyn 2 a 3
daeth Miss Brenda Wyn Jones draw
at blant dosbarth Miss Jên Jones i
dreialu ychydig o'u deunydd.
Treuliodd y pawns yn ein plith gan
fwynhau ei hun yn fawr iawn.
Edrychir ymlaen i groesawu Miss
Brenda Wyn Jones atom unwaith eto
cyn y gwyliau.

Ysgol Sul Undebol Bosra:
Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr,
Cylch Llanberis a Deiniolen, yng
Nghapel Bosra ddydd Sul, 21 Ebrill,
am 2 a 6 o'r gloch. Cafwyd eitemau
gan Ysgolion Sul Ebeneser, Capel
Coch, Capel Jerusalem a Chapel
Bosra. Braf oedd gweld y capel dan
ei sang yn y pawns gyda nifer fawr
o blant ifanc iawn hyd eu harddegau
yn cymryd rhan ac yn rhoi asbri yn
y canu, o dan arweiniad John Eifion
Jones. Cafwyd annerchiad
ardderchog gan Miss Jean Parc
Jones a thanlinellodd bwrpas y
casgliad yn ystod y pawns, sef er
addysgu merch fach o Kenya a

fabwysiadwyd gan y Gylchdaith. Yn
ystod yr haf fe fydd y plant yn dysgu
penillion, adnodau a salmau gan
obeithio y bydd yna garedigion yn
barod i'w nodd. Fe fydd oedolion
hefyd yn dysgu darnau o'r Beibl ar
eu cof ac fe aiff yr elw hwn at
gronfa'r ferch fach hon.

Bu hwyl ar y canu yng nghyfarfod
yr hwyr hefyd a daeth cynulliad da
iawn a chafwyd blas ar ganu yr
emynau o'r Caniedydd o dan
arwiniad John Eifion Jones.

Bu aelodau Ysgol Sul Bosra yn
cymryd rhan yng Nghymanfa'r
Methodistiaid yn Hiracl, Bangor,
bnawn Sul, 28 Ebrill, am 2 o'r gloch.
yr un oedd y thema, sef 'Y Beibl: y
llyfr gorau yn y byd.'

Cymdeithas Feibla: Cynhelir
gwasanaethau'r Gymdeithas yn
Eglwys Santes Helen, ddydd Sul, 30
Mehefin, am 2 a 6 o'r gloch. Cymerir
rhan gan aelodau'r ysgolion Sul yn
y pawns a Chymanfa Ganu dan
arweiniad Mrs Eurgain Eames yn yr
hwyr.

21ain Oed: Llongyfarchiadau i Dyfed
Jones, Bryntirion, ar achlysur dathlu
ei ben-blwydd yn 21ain oed yn
ddiwedd. Pob dymuniad da iti
Dyfed a phob bendith i'r dyfodol.

Gair o Ddiolch: Dymuna Llion
Roberts a Dyfed Jones ddiolch i'w
rhieni, teuluoedd, ffrindiau a
chymdogion am y llu cardiau a
rhoddion a dderbyniasant ar achlysur

dathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw ac
un ar hugain oed.

Gwellhad: Dymunir adferiad iechyd
llwyr a buan i Avril Williams, Careb,
Bryn Eglwys, wedi triniaeth yn yr
ysbyty. Anfonir cofion at Mrs Eluned
Porter, Y Foelas, wedi'i thriniaeth
hithau. Cofion annwyl atoch chi a
Mrs Nellie Roberts. Cofion annwyl
hefyd at Mrs Katie Williams sydd yng
nghartef Pengwaith, Llanberis.

Dymunir gwellhad buan i bawb
arall sy'n sâl yn y pentref ar hyn o
bryd. Brysiwch wella i gyd.

Colli Anwyliaid: Cydymdeimlir yn
ddwys unwaith yn rhagor â theulu'r
Parchg Tegid Roberts o golli ewythr
annwyl i Tegid. Yn dawel yn Ysbyty
Eryri, Caernarfon, bu farw Mrs Joan
Edwards, 3 Llys y Gwynt, ein
cydymdeimlad llwyraf â Mr John
Mathias Edwards. Bu farw cefnder
agos iawn i mrs Rennie Morris, Llys
y Gwynt, a bu nain Janice Jones,
Perthi, farw ym Mhorthmadog.
Derbyniwch ein cydymdeimlad
dyfnaf.

Croeso: Croeso cynnes i Mrs Dilys
Williams sydd wedi symud i 2 Llys
y Gwynt o Ddinorwig.

Twrnament Tennis: Llongyfarchiadau
brwd i Urien Deiniol, 11 Bryn
Eglwys, ar ennill Tlws Pencampwr
Tennis Gogledd-Orllewin Cymru, dan
10 oed, yn ystod gwyliau'r Pasg. Da
iawn ti.

RSCN: Llongyfarchiadau mawr i Mrs
Fiona Lloyd Jones, 2 Tan y Ffordd,
ar ei llwyddiant yn ennill RSCN yn
ddiwedd. Pob dymuniad da i'r
dyfodol.

Pwyllgor Neuadd: Cynhaliwyd Hwyl
a Sbrî y Pasg yn y Neuadd Gymuned
a chafwyd hwyl ar yr amrywiol
eitemau. Diolchir i Ceren ac Aled
Jones am feirniadu mor annwyl ac
am eu rhodd haelionus iawn. Roedd
pawb wedi dotio gweld Guto Siôn.
Tynnwyd Clwb Cant mis Mawrth a'r
enillwyr oedd: 1, A. Thomas, 10 Tai
Arthur; 2, Megan Jones, Perthi; 3,
Eirlys Jones, Brynhyfryd. Enillwyr y
raffl oedd Sioned Mai, Carolyn
Roberts a Llŷr.

**Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon a'r
Cylch:** Daeth nifer dda i'r Cyfarfod
Cyhoeddus, nos Fercher, 17 Ebrill,
am 7 o'r gloch yn y Neuadd
Gymuned. Roedd pawb yn unfrydol
dros gasglu targed y pentref tuag at
yr Wyl. Sefydlwyd pwyllgor ac fe
etholwyd swyddogion ac aelodau'r
pwyllgor. £250 yw targed
Penisarwaun a golyga hynny
gyfraniad o £1 y pen i bawb sy'n
dymuno cyfrannu. Bwriedir
cylchlythyru gydag enwau'r
casglyddion arnynt erbyn diwedd
mis Mai. Gofynnir yn garedig iawn i
chwi gyfrannu at yr Wyl arbennig
hon sy'n dathlu ei phen-blwydd yn
50 oed eleni. Bydd pob cyfraniad
boed fach neu fawr yn wir
dderbyniol. Diolchir ymlaen llaw i
chwi am eich cydweithrediad a'ch
haelioni.

Eglwys Santes Helen: Cynhelir
Cymanfa'r Eglwys yn y Gadeirlan
ym Mangor, ddydd Sul, 5 Mai.

Mynwent Newydd: Mae Cyngor
Plwyfol Eglwysig Eglwys Santes
Helen wedi sicrhau darn o dir i
ymestyn y fynwent. Gweler llythyr
y Parchg Tegid Roberts ar yr ail
dudalen yn y rhifyn hwn am y
manylion yn llawn.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

Cerrig
Beddau

Glanhau y Garreg
ac
Ailbeintio
Llythrennau

Ffoniwch am bris
(01286) 830041

CLN

Argraffu a Ffotogopio Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T

Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythyrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy

48 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn/Ffacs: 870200

ATGOFION AM MAM: Jane Jones

Porth y Gogledd, Deiniolen

29 Rhagfyr 1888 — 23 Ionawr 1964

Fe'i ganed yn rhif 7 Caeau Uchaf Road (Porth y Gogledd), Deiniolen, yn ferch i Elin Mary ac Owen Richard Jones. Symudodd y teulu i Erw Fair, sydd rhyw dri-chwarter milltir o'r pentref, pan oedd hi oeddeutu blwydd a hanner oed. Roedd ganddi un chwaer, Sarah, a oedd dair blynedd yn hyn na hi.

Gwraig landeg, siapus a gweddol fechan oedd Mam, gyda gwallt tywyll, cyrllog, ac yn meddu ar gymeriad tawel ac addfwyn. Byddai yn hapus bob amser. Hoffai ddarllen a chwblhau croeseiriau yn y papurau newydd a chofiaf iddi gael gwobr fechan am gwblhau un yn gywir. Ni welais hi erioed yn colli'i thymher nac yn flin er fod ganddi ddigon o reswm yn aml dros wneud hynny.

Cafodd un fantais fawr pan yn blentyn: gan fod ei thad wedi cael addysg well na'r cyffredin o'i gymharu a'i gyfoedion, roedd yna ddigon o lyfrau ar gael yn y cartref a byddai annogaeth i'r plant eu darllen.

Synnais lawer gwaith at ei gwybodaeth eang ar bob math o bynciau a rhai ohonynt nad oedd erioed wedi cael eu dysgu iddi yn yr ysgol. Pan oeddem yn yr ysgol uwchradd ym Mrynrefail hi fyddai yn ein cynorthwyo gyda'n gwaith cartref — yn enwedig mewn pynciau megis gramadeg Saesneg, Cymraeg a Daeryddiaeth.

Dechreuodd Mam weithio pan oedd yn dair ar ddeg oed fel morwyn fach mewn siop lyfrau yn Arfon House, Stryd Fawr, Deiniolen, ac wedi iddi weithio yno am fis — a'i chyflog cyntaf yn ddyledus — dywedodd ei chyflogwr wrthi nad oedd ganddo ddigon o arian i'w thalu ond y câi ddewis unrhyw lyfr a oedd ganddo yn y siop yn lle ei chyflog. Dewisodd Feibl mawr teuluol gyda chlwr lledr a chlaspiâu bras arno ac fe ddaeth hwn, yn ddiweddarach, yn Feibl ein teulu a bu fy nhaid (tad Mam) yn ysgrifennu ynddo ddyddiad ei phriodas ac enwau a dyddiad geni ei phlant, a hynny mewn llawysgrifen hynod o gywrain. Mae'r Beibl bellach yn fy meddiant ac rwyf yn falch iawn ohono ac mae'n llawer mwy gwerthfawr, erbyn hyn, na chyflog mis morwyn fach er cymaint ei siomiant ar y pryd.

Wedi hynny cafodd waith fel morwyn yng Nghaernarfon a bu'n eithaf hapus gyda'r teulu yno. Arferai fynychu'r capel bach a elwid yn *Feed My Lambs* bob tro y byddai'r feistres yn caniatáu iddi gael amser rhydd o'i dyletswyddau.

Fe adawodd Caernarfon a mynd i Lerpwl i weithio. Y tro yma fel morwyn i deulu o Iddewon. Ni wn beth a'i cymhellodd i fynd i Lerpwl ond efallai fod â wnelo'r faith fod ei chwaer, Sarah, yno yn gweithio fel gwniadwraig ar y pryd. Doedd ganddi hi fawr o feddwl o'r teulu y bu'n gweithio iddynt ac fe liwiodd hynny ei meddwl am y genedl Iddewig yn gyffredinol. Symudodd at deulu arall yn Lerpwl a bu yno am rai blyneddau.

Cyfarfu â 'nhad a phenderfynodd chwilio am waith yn agosach adref, a chafodd waith fel morwyn yn Llys Myfyr, cartref gweinidog Capel Disgwylfa, Deiniolen. Gadawodd y

swydd i briodi fy nhad, sef Robert David Jones, a bu'r briodas yn y swyddfa gofrestru yng Nghaernarfon ar y 6ed o Ionawr, 1911. Richard Morris, cyfaill fy nhad, oedd y gwas priodas. Gwnaethant eu cartref yn rhif 5 Porth y Gogledd cyn symud yn ddiweddarach i 9 Porth y Gogledd, ble bu'r ddau fyw weddill eu hoes. Rhoddwyd yr enw 'Noddfa' ar y tŷ, ac yno y magodd y ddau eu teulu; ac yno hefyd y bu i'r ddau farw.

Yn 1915 aeth fy mam a fy nwy chwaer, Katie a Nell, i Bedford at fy nhad gan ei fod, erbyn hynny, yn gwasanaethu gyda'r fyddin yno. Fe symudwyd fy nhad o Bedford i Norwich ac aeth Mam a fy chwiorydd yno efo fo. Cafodd ei anfon i wasanaethu yn yr Aifft ac fe ddaeth fy mam a'i phlant adref i Ddeiniolen.

Bychan iawn oedd cyflog chwarelwr a bu'n amser caled iawn arni yn ystod ei hoes. Prynai ei neges bron i gyd o'r Co-operative yn y pentref gan eu bod yn talu 'dividend', ac fe delid hwn fel canran o'r hyn a brynwyd yn ystod y flwyddyn. Byddai Mam, a phawb arall yn y pentref, yn dibynnu yn hollol ar y 'discount' neu'r 'difi' ac yn aml iawn byddai fy mam yn cael benthgys pres gan Nain Erw Fair a thalu'r arian yn ôl wedi iddi gael y 'discount'. Rhyw £23 a fyddai yn ei gael fel rheol ac ar ôl talu oddeutu £5 i Nain roedd ganddi oddeutu £18 ar ôl. Roedd hynny yn swm sylweddol y dyddiau hynny gan nad oedd cyflog fy nhad yn y chwarel ond rhyw £2 yr wythnos.

Fy mam a wnaï bopeth yn y cartref. Welais i erioed fy nhad yn paentio, papuro na gwneud unrhyw waith arall o amgylch y tŷ — ag eithrio plannu tatws yn Erw Fair yn ystod tymor y Pasg. Roedd Mam wedi ein difetha'n lân gan y gwnai bopeth yn ein lle — byddai'n glanhau ein esgidiau bob nos er mwyn iddynt fod yn lân i fynd i'r ysgol yn y bore. Gofalai fod esgidiau fy nhad hefyd yn lân bob amser gan lanhau ei esgidiau chwarel ar gyfer bob bore Llun. (Dim ond y stiwardiaid fyddai'n mynd i'r chwarel efo sgidiau glân gydol yr wythnos!)

Byddai Mam yn mynd i'r capel yn rheolaidd ac roedd yn aelod ffyddlon o Sefydliad y Merched. Ar yn ail ddydd Mercher byddai Mam yn mynd i Erw Fair i de a byddem ninnau'r plant yn mynd yno yn syth o'r ysgol.

Cafodd iechyd rhagorol gydol ei hoes hyd nes iddi gyrraedd 72 mlwydd oed pryd y cafodd strôc fechan ac fe gollodd ran o nerth ei llaw dde. Dirywiodd ei hiechyd yn araf ac aeth yn ddigon ffwdrus yn ei dyddiau olaf. Bu farw, fel y bu fyw, yn ddistaw a di-stwr ym Mhorth y Gogledd ar yr 23ain o Ionawr, 1964, yn 76 mlwydd oed. Claddwyd hi ym mynwent Macpela sydd gyferbyn â thŷ y gweinidog y bu'n gweithio yno hanner can mlynedd ynghynt. Pedair blynedd yn ddiweddarach rhoddwyd fy nhad i orffwys yn yr un bedd. Colled enfawr i ni oedd colli dau mor annwyl. Heddwch i'w llwch.

OWEN JONES, Llangefni

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390



Rhiannon, Alaw, Sioned a Michael

Dewiswyd Sioned Williams yn Frenhines Carnifal Llanberis eleni. Y morynion fydd Rhiannon Jones ac Alaw Ceris, a'r gwas fydd Michael John Hughes. Gobeithio y gwnaiff y pedwar fwynhau'r Carnifal.

Capel Jerusalem: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r Gyfeillach ar 2 Ebrill, o dan lywyddiaeth Robert Thomas. Cafwyd ganddo hanes diddorol o fywyd a gyrfa y diweddar Goronwy Roberts, A.S. Cafwyd hefyd hanes adeiladu a sefydlu capeli annibynnol y cylch o dan arweiniad David Griffith, gan Hugh R. Jones. Daeth mwy o gymeriadau i'r amlwg yn ystod y drafodaeth a gafwyd dros baned o de.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 7 Mai, am 2 o'r gloch, pryd y bydd y Parchg H. Gwynfa Roberts yn sôn am ei ymweliad ag Israel. Bydd croeso cynnes i bawb.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd y cyfarfod misol yn festri Sant Padarn bawn Mawrth, 2 Ebrill. Mrs Dilys Phillips arweiniodd y gwasanaeth a darlennodd Mrs Audrey Evans y Colect.

Y wraig wadd oedd Mrs Ann Parry Jones o Lanrug a mwynhawyd amser difyr iawn yn ei chwmni gan iddi ddwyn i gof amser ei phlentyndod a phwysigrwyd yr Eglwys yn ei bywyd. Roedd y sgwrs yn dod a llawer o atgofion i sawl un o'r aelodau.

Cafwyd y cyfarfod busnes a derbyniwyd cofnodion y mis blaenorol yn gywir.

Cydymdeimlwyd â theulu y

ddiweddar Mrs Annie Mary Jones, gynt o 6 Dôl Eilian. Anfonwyd ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Mrs Muriel Morris, 16 Maes Padarn sydd heb fod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar, ac fe'i llongyfarchwyd hi a Ted ar achlysur dathlu eu Priodas Rhuddem. Llongyfarchwyd hefyd Mrs Jean Roberts, Stryd Goodman, ar fod yn hen-nain am y tro cyntaf.

Croesawyd ein curad newydd, Y Parchg Emyr Owen, ei wraig a'i ferch fach i'n plith.

Talwyd y diolchiadau gan Mrs Clara Roberts i Mrs A. P. Jones a'r ddwy oedd yn ymorol am y lluniaueth, sef Mrs Kathleen Williams a Mrs Beryl Owen. Eiliwyd y diolch gan Mrs Bet Hughes a hi hefyd a enillodd y raffl.

Eisteddfod Llanberis: Cofiwch bod yr Eisteddfod i'w chynnal yn festri Capel Coch am 6 o'r gloch, nos Wner, Mai 24ain. Daeth nifer dda o'r plant i gymryd rhan yn y cystadlaethau Llên a Chelf a gynhaliwyd y ddau brynhaun Mawrth olaf yn Ebrill. Cofiwch bod rhaid i'r ymdrechion yn yr adran llenyddiaeth agored gael eu hanfon at ysgrifennydd yr Eisteddfod, Heather Jones, erbyn Mai 4ydd. Dowch i gefnogi'r Eisteddfod eleni eto.

GORSAF BETROL

BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
 Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
 Cylchgronau • Papurau Newydd
 Cardiau Penblwydd • Wyau
 Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Marwolaeth: Bu farw Mrs Dilys Roberts, Dakota, yn sydyn yn 93 oed, yn ei chartref ar 11eg o Ebrill. Gweddwyd annwyl a ffyddlon y diweddar John Benjamin Roberts (Siôn Trosgoll); mam annwyl Eric, Betty ac Eunice; mam yng nghyfraith annwyl Mary; nain gariadus Maldwyn, Elin a Buddug, Siân a John, Paul a Judith, a'r ddiweddar Ann; hen-nain annwyl ei gorwyrion Nia a Dyfrig, Phillip, Rhys a Shôn a Robert.

Bu'n aelod ffyddlon am flynyddoedd maith o Eglwys Nant Padarn a'r Achos yn agos iawn at ei chalon. Mwynhaodd, yn ei hamser, y WL, pwyllgorau i'r henoed gan roi ei hamser i'r 'Meals on Wheels'. Roedd bob amser yn barod iawn ei chymwynas. Mwynhad mawr iddi yn ddiweddar oedd cael dathlu canfed pen-blwydd ei ffrind Elin Griffith.

Bu'r angladd preifat, yn ôl ei dymuniad, ym mynwent y plwyf, Llanrug, ar y 15fed o Ebrill.

Diolchir i bawb o'r teulu a ffrindiau am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd, i'r ardalwyr am eu cydymdeimlad a'u cyfraniadau tuag at 'Ffrindiau'r Clinig'. Diolch i'r meddygon a'r nyrsus oedd wedi bod mor ofalus ohoni am y ddwy flynedd ddiwetha. Diolch hefyd i'r Parchg John Pritchard am ei wasanaeth ac i Myrddyn Pritchard a Gwynfor Jones am eu tefniadau gofalus.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Enid Jones, Porthmadog, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei mham, Mrs Grace Jones (gynt o Lanberis). Diolch am y gefnogaeth dda yn y Capel Coch ac am y rhoddion tuag at y capel. Diolchir i'r Parchg John Pritchard a'r Parchg Ddr Elwyn Richards am eu cymorth; i Mrs Iona Jones yr organyddes; i Mr Myrddyn Pritchard a Mr Gwynfor Jones am y trefniadau trylwyr.

Dymuna teulu y ddiweddar Mary Thomas, gynt o 14 Pant Du, ddatgan eu diolchgarwch a'u gwerthfawrogiad diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad, y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a'r blodau a dderbyniasant yn eu profedigaeth. Diolch hefyd i'r Parchg John Pritchard; Mr Myrddyn Pritchard a Mr Gwynfor Jones am eu trefniadau; ac i Mrs Iona Jones yr organyddes.

Dymuna Derfel Owen, 9 Stryd y Wyddfa, ddiolch i'w ffrindiau a'i deulu am y llu o gardiau ac anrhegion



Bu rhai o blant Ysgol Dolbadarn yn cymryd rhan yn y Diwrnod Glanhau'r Gwanwyn — Tacluso Llanberis, ddydd Sadwrn, Mawrth 30. Trefnwyd y diwrnod gan Gyngor Arfon, Cadwch Cymru'n Daclus, a Chymdeithas Cyhoeddusrwydd Llanberis. Dyma Carys, Amy, Sioned a Rhiannon yn cael seibiant bach.

a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn un ar hugain oed.

Dymuna Bert a Meira Pitts, Llanrug, ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd; galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniwyd tra bu yn Ysbyty Gobowen, ac wedi iddo ddod adref. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Muriel a Ted Morris, 16 Maes Padarn, ddatgan eu diolch diffuant am bob arwydd o garedigrwydd ddangoswyd iddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Rhuddem, ac am y llu o gardiau, blodau ac anrhegion, galwadau ffôn ac ymweliadau, sydd yn rhy niferus i'w hateb yn unigol. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mrs Glenys Owen, 9 Stryd y Wyddfa, ddiolch yn fawr iawn i'w thelu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 50 oed ar Ebrill 11.

Dymuna David a Rhian a theulu'r ddiweddar Mrs Myfanwy Jones, Llys Eryri, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a chwaer annwyl. Diolch yn arbennig i feddygon Waunfawr a staff Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Evan Thomas, 89 Maes Padarn, ddiolch yn gynnes i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniwyd tra roedd yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac wedi iddo ddod adref. Diolch yn fawr iawn.

Ysgol Dolbadarn: Estynnwn groeso cynnes i Mr Dylan Môn Parry atom i'r ysgol. Mr Parry yw athro newydd plant hynaf yr ysgol. Un o Gaerhun ydyw, a gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yn ei waith gyda ni. Anfonwn ein cofion cynnes unwaith eto at Mrs Nan Humphreys, gan ddymuno adferiad buan iddi.

Capel Coch: Dathlwyd y Pasg mewn oedfa Gymundeb fore'r Groglith, Ebrill 7fed, dan arweiniad y gweinidog. Daeth cynulleidfau niferus ynghyd, yn cynnwys amryw o blant yr eglwys oedd gartref yn Llanberis dros y gwyliau. Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymanfa Annibynwyr y cylch yng Nghapel Bosra, Penisarwaun, brynhawn Sul, Ebrill 21ain. Cyflwynwyd eitem ar thema stori'r lesu am y tŷ ar y graig a'r tŷ ar y tywod. Bu dau dîm yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Pêldroed flynyddol Ysgolion Sul Arfon nos Wener, Ebrill 26ain. Cynhaliwyd y gystadleuaeth, sy'n para dros bedair noson, yng Nghanolfan Hamdden Arfon. Y Sul dilynol, roedd y plant yn cael eu arholi ar gyfer Cymanfa'r Presbyteriaid sydd i'w chynnal yn Nant Peris, ddydd Sul, Mai 5ed. Mae chwirydd yr eglwys wedi penderfynu cynnal boreau coffi i godi arian at adnewyddu cegin y capel. Mae dau wedi eu cynnal eisoes a byddant yn cael eu cynnal bob pythefnos, ar foreau Mawrth.

Wythnos Cymorth Cristnogol: Gwneir y casgliad blynyddol arferol tuag Cymorth Cristnogol yn ystod yr wythnos 12-18 Mai.

PLAID CYMRU LLANBERIS

GWERINOS

nos Wener, Mai 10fed
yng Ngwesty Llyn Padarn
Llanberis

Tocynnau: £3

MONIARS

nos Wener, Mehefin 7fed
yng Ngwesty Dolbadarn
Llanberis

Tocynnau £4

Tocynnau ar werth gan:
GWILYM EVANS
(01286) 872034

DRAENOG



Os oes raid dipio'r defaid, mae'n ddigon teg dipio'r bugail ryw unwaith y flwyddyn hefyd . . .

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

Ymddiheurwn am y camgymeriad yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Fe ddylai ddarllen: Pob hwyl i Den, Rhos-y-Grug, Ceunant, yn ei swydd newydd efo cwmni Arfonia.

Llongyfarchiadau i Einir Davies, merch ifanc Helen Parry, Morwel, Ceunant, ar ei phenodiad yn brifathrawes Ysgol Gynradd Tudweiliog, Llŷn. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ym mis Medi. Pob hwyl iti Einir.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyraains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Elfion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

**ERIC
JONES**

PENISARWAUN

**PEINTIWR
AC ADDURNWR**



Joban Dda
am Bris
Rhesymol

Ffôn: 872421

Emyr Jones
PLYMAR
A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513



I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Llanrug yn Ysbrydoli Bardd

Cawsom wybod peth o hanes y bardd Gareth Owens gan Mrs G. M. Jones, Dalar Deg, Llanrug. Mac Gareth Owens wedi cyhoeddi amryw o lyfrau barddoniaeth Saesneg, nifer ohonynt i blant, ac mae hefyd wedi cyflwyno rhaglen o'r enw 'Poetry Please' ar y cyfryngau. Yr hyn sy'n ddiddorol efallai i ddarllenwyr yr Eco yw fod gan Gareth gysylltiadau â'r ardal a bod un o'i gerddi 'Gathering of the Day' yn seiliedig ar ei atgofion o ddod i aros at ei nain a'i daid yn Llanrug pan oedd yn blentyn. O ran diddordeb rydym yn cyhoeddi dau bennill cyntaf y gerdd yma ynghyd â rhydd-gyfieithiad o'r gerdd gyfan gan Mr J. Watcyn Jones o'r Wyddgrug. Oes gan rywun o'n darllenwyr wybodaeth bellach am Gareth Owens? Pwy oedd ei nain a'i daid?

GATHERING OF THE DAY

I saw my grandad late last evening
On a hillside seething hay,
Wiped his brow and gazed about him,
Gathering in the day.

My grandmother beside the fireplace
Sleeps the afternoon away,
Wakes and stirs the dying embers
Gathering in the day.

Gwyllo taid yn sychu'i dalcen
Uwch ei bladur, nawr mae'n rhydd
I gael mygyn, i gael hamdden-
Oedfa dawel diwedd dydd.

Dactw nain yn swrth pendympian
Ei dwy foch fel rhosyn rhudd,
Procio'r tân i ferwi'r crochan
Oedfa dawel diwedd dydd.

Hwyl a chwerthin draw o'r berllan,
Wil a Mari yno sydd
Yn dynwared nain yn hepian
Oedfa dawel diwedd dydd.

Beth a wêl fy nain drwy'r gwyrdr,
A wêl heddiw flodau'r ardd?
Gwyllo mae na af i grwydro
Oedfa dawel diwedd dydd.

Dactw'r dorf yn ymlwybro gartref,
Rhai yn llon a rhai yn brudd;
Ffyddlon haul yr haf a'r hydref
Oedfa dawel diwedd dydd.



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Ar Ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/Ffacs: (01286) 672619
Richard S. Humphreys

O Ben'sarwaun i Ben Draw'r Byd

Rhan gyntaf hanes taith Hogia'r Wyddfa
a chyfeillion i Awstralia
gan ARWEL JONES

'Mae yna fywyd diwylliannol tu draw i gorau meibion yng Nghymru,' oedd neges Grace Roberts i gymdeithasau Cymraeg Awstralia. 'Fy ngobaith yw cael Hogia'r Wyddfa drosodd i brofi hynny,' oedd ei chri unig.

Ar ôl perswadio hwn a'r llall, procio, a hyd yn oed 'bwlio', rhai eraill fe wireddwyd ei breuddwyd. Gyda chymorth parod a chadarn ei gŵr, Eurwyn, aed ati i drefnu taith dair wythnos a gynhwysai gyngherddau yn Sydney, Newcastle a Wologong ar arfordir De-ddwyrainol Awstralia, ac yna penwythnos yn Canberra, prifddinas y wlad.

Roedd hon yn fenter heb ei bath gan fod yr Awstraliaid yn y gorffennol wedi arfer croesawu corau meibion mawr ac adnabyddus i'w gwlad a'u cartrefi ac wedi gwirioni'n lân â'r math hwnnw o ganu. Beth fyddai eu hymateb i griw bychan o gantorion cymysg yn canu caneuon ysgafn bron yn gyfan gwbl yn Gymraeg? Yn ychwanegol at yr ansicrwydd yma fe gollais innau fy llais rhyw gwa't dair wythnos cyn cychwyn ar y daith! Yn wir, bu'r holl fenter yn y glorian am rai dyddiau cyn dod i'r penderfyniad o dderbyn yr her a mynd.

Y cam cyntaf oedd ailystyried



Rosalind a Myrddin

Llun: TEGWYN ROBERTS

ein rhaglen a phenderfynu ar gyflwyno caneuon ysgafn distaw, llai egniol, a weddai'n well i lais bychan a digon gwantant. Gofynnwyd i Gwyn Parri gyflwyno'r artistiaid ac arwain y

cyngherddau. Cytunodd Gwyn i wneud hynny ac fe wnaeth ei waith cyflwyno mor naturiol a chartrefol fel mai buan iawn y llwyddodd i gael y gynulleidfa i ymlacio a mwynhau eu hunain. Yn amlwg roedd stori neu ddwy a naws Gymreig iddynt yn apelio.

Cafwyd eitemau swynol ac amrywiol gan Rosalind a Myrddin, a datganiadau cerddorol tu hwnt gan Annette Bryn Parri. Ond sêr y nosweithiau, yn ddiymwad, oedd Bedwyr, Ynyr a Heledd — plant Gwyn ac Annette. Mewn neuadd lawn yn Sutherland fe dynnodd y tri y lle i lawr. Dotiai aelodau o gôr meibion Sydney, a rannai'r un llwyfan a hwy, at eu dawn gerddorol. Doedd dim nerfau artistig yn perthyn i'r rhain —

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA




Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833



Teulu Cynefin: Anette a Gwyn, Heledd, Bedwyr ac Ynyr.



Llun: TEGWYN ROBERTS

dim ond eu tywys gan Dad i flaen y llwyfan at y meicroffon ac 'awê' i gyfeiliant Mam!

Roedd y dorf wedi rhyfeddu ar y lleisiau tlws, ond yn rhyfeddu mwy at y ffaith mai yn Gymraeg y canent. Esboniais innau mai dyna yw eu hiaith gyntaf, eu hiaith bob dydd yn yr ysgol, y siop, y stryd a'r aelwyd. Mentrais awgymru mai un o ryfeddodau mawr y byd oedd parhâd a bodolaeth yr iaith Gymraeg o gofio ein bod fel cenedl wedi byw 'drws nesa' i un o bwerau ieithyddol mwyaf dylanwadol yn hanes dynoliaeth. Mentrais awgrymu hefyd fod y 'bobol drws nesa' wedi trio'n galed ar hyd y canrifoedd i ddinistrio'r iaith — ond fod y tri bach yma, Bedwyr, Ynyr a Heledd, yn dyst pendant o'u diffyg llwyddiant. Cafwyd

bonllefau o gymeradwyaeth yn dilyn hyn a phob un ohonom yn cael yr ymdeimlad fod yr Awstraliaid yn deall y sefyllfa i'r dim, a chael y wefr o sylweddoli, hyd yn oed ym mhellafoedd byd, ein 'bod ni yma o hyd'.

Roedd y balchder ar wyneb Grace ac Eurwyn ar ddiwedd y cyngerdd cyntaf yn adrodd cyfrolau gan gadarnhau fod eu menter wedi gweithio a bod misoedd o genhadu a pharatoi wedi bod yn llwyddiannus.

Diddorol oedd sylwadau rhai o'r Awstraliaid pan holwyd hwy ar dâp gan Dafydd Meredydd o BBC Cymru. Roedd pob un a holwyd yn ymwybodol o Gymru a'i lleoliad ond ychydig iawn a sylweddolai ein bod yn genedl ac inni iaith a diwylliant gwahanol. Roedd hi'n amlwg, o'u hymateb brwdfrydig, fod y ffaith yma wedi dwyshau eu diddordeb yn y canu. Cafwyd ymateb diddorol gan eraill am gyngherddau corau meibion o Gymru yn y gorffennol. Yr ymateb cyntaf oedd, 'gwydych — corau gorau'r byd — ond pam dod yr holl ffordd o Gymru i Awstralia a chanu yn Saesneg?'

Awgrym bychan felly i ddarpar-deithwyr ac aelodau o gorau meibion i Awstralia — cenwch yn Gymraeg — dydi'r Awstraliaid ddim yn dymuno clywed caneuon Cymry yn cael eu canu yn Saesneg! Cofiw'n ein bod i gyd yn ddiddanwyr ac hefyd yn lysgenhadon dros yr iaith Gymraeg.

(I'w barhau)

Gogs v Hwntws

Am y tro cyntaf erioed mae tîm rygbi o fro'r Eco wedi mentro i gadarnle'r gêm yn y De. Enillodd tîm 7-bob-ochr Llanberis yr hawl i gynrychioli Eryri yn Llanelli, yng nghystadleuaeth dan 12 oed yr Urdd, ddydd Sadwrn, Ebrill 20.

Yn nhraddodiad gorau pob tîm o fri, aed i aros dros nos mewn gwesty cyn y gêm fawr, a hynny yng Ngwesty Parc Strade yn Ffwrnais. Cafwyd brecwast fore Sadwrn gyda Syr Wyn Roberts, A.S. Conwy — yn yr un ystafell os nad wrth yr un bwrdd!

Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar faes ymarfer Clwb Rygbi Llanelli, wrth faes enwog Y Strade. Roedd 12 tîm, wedi eu rhannu'n bedwar grŵp, fel bod pob tîm yn chwarae dwy gêm. Cafodd yr hogia gêm galed i

ddechrau yn erbyn Hakin, ac er i Lanberis fod ar y blaen ddwywaith, bu'n rhaid bodloni ar gêm gyfartal, 14 pwynt yr un. Colli'r ail gêm a wnaed, yn erbyn Ystradgynlais, o 21-7. Ildiodd yr hogia dri chais cynnar cyn torchi llewys yn yr ail hanner a dod yn agos i sgorio sawl tro. Rhoesant gyfiri da ohonynt eu hunain yn y ddwy gêm.

Cynhaliwyd rownd derfynol y gystadleuaeth ar Faes y Strade ei hunan, a chafodd yr hogia weld y gêm honno, a'r gêm fawr rhwng Llanelli a Phontypridd yn y pwn. Ar ôl y gêm cawsant fynd i'r stafell newid i gyfarfod â chwaraewyr Llanelli, a chael sgwrs â rhai fel Ieuan Evans, Rupert Moon, Robbie McBride a'r 'sosban' fwyaf ei hun, Ray Gravell.



Rhes gefn: Rhys, Aaron Wyn, Iwan, Aaron Lloyd, Owain, Philip.
Rhes flaen: Willie, Dafydd, Dylan.

DRAENOG



Y mis dwythfa cefais stori gan G am B yn colli goriadau'r car. A dyma B yn talu'r pwyth yn ôl a dod â stori i mi am G yn cloi ei oriadau yn ei gar y dydd o'r blaen. Wedi mynd i Ddeiniolen yr oedd efo'i dîm pêl-droed. Bu'n rhaid ffonio'i wraig yn Llanberis i ddod â goriad sbâr iddo ond yn anffodus, aeth honno ar goll yn Neiniolen a methu dod o hyd i'w gŵr na'r car.

CYNGOR HENOED GWYNEDD CYNGERDD

Nos Sadwrn, 15 Mehefin
am 7.30 o'r gloch
yn Neuadd PJ, Bangor

HYWEL GWYNFRYN

yn cyflwyno
HOGIA'R DDWYLAN

BAND PRES IEUENCTID GOGLEDD-
ORLLEWIN CYMRU

CYWAIR :: MYFANWY ROBERTS
NIA LAND :: CANTORION ELIDIR
A CHÔR YSGOL BETHEL

Cyfeilydd: CATHERINE BARNETT

Tocynnau £5

Yr elw tuag at Gyngor Henoed Gwynedd
a Môn a Chynnal Gofalwyr Gwynedd.

Mwy o fanylion gan Robin Jones
(01286) 677711



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol

Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)



WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

Mynd am Hannar Coron gan Y Gwalch

Mae gweithio am dymor mewn swyddfa arwerthwr, medd rhai, yn rhoi ffenest amrywiol iawn i ddyn ar y byd a'i drigolion yn eu holl gyflyrau. Ar ôl bod am ddwy flynedd mewn sefyllfa felly allaf i ddim llai na meddwl fod yna ryw beth yn y dywediad.

Cefais fy nhaflu i'r cŵn y diwrnod cynta drwy gael fy anfon i ddiidoli biliau hir-ddyledus i rai yn trigo ar stad oedd yn draddodiadol hirymarhous eu taliadau. Rhwng cŵn a phlant a'r bobl rheiny, bŵm yn ffodus i ddod yn ôl yn ddihangol.

Cwmni â'i bencadlys ar y Maes oedd hwn wedi ei wthio rhwng Peacocks a'r Herald, ac yr oedd newydd draflyncu hen gwmni arall ac wedi meddiannu ei swyddfeydd, ac yr oedd ei diriogaeth fasnachol yn cyrraedd o eithaf Llŷn i bendraw Môn, ac yn cyflogi fel clarcod, tri hogyn a thair merch, a oeddent mewn swyddfa ar wahân ac yn delio â materion y Weinyddiaeth Fwyd. Byddai gweithwyr achlysurol yn dod i'r ystafell ddodrefn islaw i gynorthwyo hefo'r ocsiynau misol.

Punt yr wythnos oedd ein cyflog am yn aml i chwe diwrnod ar ei hyd ac, mewn argyfyngau, disgwylid i ni fod yn ddofars a portars dodrefn a chymysgwyr past.

Treuliai yr wythnos gyntaf i mewn, yn cyfeirio amlenni a chludo miloedd i'r banc ar y gornel mewn bag lliain; peth na fasa yr un o fy nhraed i'n wneud y dyddiau yma. Yna cefais fy nghyflwyno i'r gredio gwartheg ym mart Seilo Bach sydd bellach ond cof tanddaearol. Roeddwn yn gofalu am y lloï oedd yn cael eu graddio i fawr a chanolig, bach ac erthylod. Roeddwn yn y swyddfa fach dŷn pan ddaeth dyn bychan mewn slop fudr a het 'pork-pie' i mewn a sodro hannar coron ar y bwrdd. Amneidiodd ei ben at y ffenest tuag at drelyr yn llawn o loi y tu ôl i sragyn o gar. 'Mae arna i isio 'large' ar y rheina i gyd heddiw,' meddai gan droi ar ei sawdl ac allan.

Doeddwn i ddim yn siŵr sut i gymryd y cynigiad. Beth ddywedai'r bôs am gildyrnu fel hyn? Cael fy nghardia ella ar y diwrnod cynta. Doeddwn i ddim i fod i wybod yr adeg honno fod defod fel hyn yn ymestyn drwy'r fasnach benbaladr, ac nid mewn hanner coronau chwaith. Pwy oeddwn i i dorri ar draddodiad mor henafol?

Doedd diddordebau'r dyn bach ddim wedi eu cyfyngu i'r fasnach loi yn unig. Cerddodd i mewn i'r swyddfa rhyw ddiwrnod wedyn heb na chnoc na chloch, gan ddweud fod arno eisiau benthgyl clarc i fynd i werthu cywion ieir i Langeftni. Detholwyd fi i fynd gan fy mod ar gael yn digwydd bod, er nad oedd gennyf fawr chwaeth. Roedd y dyn, fodd bynnag, yn fawr ei berswâd, gan addo gwobr dda a phryd o fwyd. Sut y gwyddwn i chwaith ei fod yn aelod o faffia'r bôs?

Roedd y sgragen yn sefyll ar y Maes, y tro yma heb ei drelyr, ac ar y sêr gefn roedd pentwr o flychau yn cynnwys cywion ieir diwrnod oed yn canu fel mil o bibau main. Roedd hi'n ddiwrnod brochus yn argoeli tymestl, ac wrth fynd roedd gobeithion y dyn bach yn uchel am 'stem' chwadall yntau.

Wedi tynnu'r blychau allan ar y planciau ym mart Llangefni, y drafferth fwyaf oedd eu rhwystro rhag cael eu chwythu am Rosmeirch. Doedd hynny ddim ond cychwyn diwrnod anffodus. Ymhen chwarter awr daeth yn ddymchwelfa a rheddodd hynny o dorf oedd yno i rywle o dan do, gan ein gadael ni a'r cywion i fwydo. Mae'n siŵr gen i fod y rhan fwyaf o'r rheiny wedi boddi yn y blychau yn barod, heb sôn am y rhai oedd wedi mynd yn seitan o dan draed y dihangwyr ac, wrth gwrs, cafodd hyn i gyd effaith andwyol ar yr economi, chwadall yr arbenigwyr presennol. Doedd yna ddim pryd o fwyd; dim hyd yn oed panad a bynsan. Trowyd am adra yn y dilyw, a ddwedodd y dyn bach yr un gair nes y stopiodd o wrth y clawdd, ger lle mae Ferodo heddiw, a mynd allan i'r glaw. Agorodd y drws tu ôl a thaflodd y cywion tros y gwrych. Chlywais i ddim sôn fod yna ieir gwylltion wedi bridio yn y swabia yna wedyn chwaith.

Wedi cyrraedd y Maes a'm rhoi i lawr rhoddodd ei ddwylo drwy'r ffenest i blicio punt i mi oddi ar rowlyn o bapurau fel rhyw goffadwriaeth o'r achlysur. Ond cipiodd y gwynt gryn ugain oddi arno nes yr oeddent yn sgriallu i fyny Stryd Llŷn rhwng traed y bobl, oedd yn amlwg ddim wedi sylweddoli beth oeddynt. Ond mae'n siŵr gen i fod rhywun yng nghyffiniau Rhosbodruall wedi bod ar ei elw.

Roeddem yn cael ein treuliau

teithio allan o'r 'petty cash' ar ddiwedd yr wythnos, ac o ganlyniad yr oeddem yn manteisio ar bob cyfle i gael ein cludo gan y tryciau gwartheg er mwyn ymestyn rhywfaint ar y cyflog. Roeddwn unwaith yn dod yn ôl o'r Sarn Mellteyrn mewn un felly, yn cludo llwyth o fustych i ladd-dy Caernarfon.

Hen enwi neb, cododd y gyrrwr ferch ar y lôn — drwy ddamwain neu drefniant — a chefais innau sgwd o'r cab a'm gwrthio, hefo fy nghês, drwy'r twll sbio yn ochr y tryc i cistedd ar y sillff gyfyng tu ôl i'r cab, ac uwchben y bustych.

Roedd y dyn yn taflu'r cerbyd rownd y corneli a syrthiodd y cês oddi ar y sillff i lawr o dan draed y bustych. Neidiai innau i lawr i'w adfer, ond nid cynt y cyffyrddodd fy nhraed y llawr na sylweddolais fy mod wedi gwneud camgymeriad dybryd. Roedd pob un o'r anifeiliaid rheiny yn pwyso ar draws pymtheg cant ac yr oeddynt yn gwasgu ar fy ngwynt. Yn eu hymrwylf, tafasant fi o dan eu traed, a does fawr angen arfer dychymyg i weld fy nhynged oni bai i mi gael gafael ar gynffon un i'm codi fy hun. Doedd fawr diben gweiddi gan fod rhu'r Dennis honno yn cael ei gyrru i'r eithaf yn boddi popeth. Llwyddais drwy ymdrech dëg i grafangu ar gefn y bustach, ac o'r fantais honno cael gafael ar ddarn o bren croes a gynhali'r to, a llithro ar gefn un arall — fel cowboi mewn rodeo — nes gallu dychwelyd ar y sillff yn ddoethach dyn os nad glanach.

Bu'n rhaid imi fynd bob cam i'r lladd-dy i ddadlwytho cyn cael gafael ar y cês, a oedd yn gribol o dail ac wedi ei ystumio. Cerddais i'r swyddfa a'm traed ar led yn drewi fel iard ffarm, a bu'n rhaid i'r genod grogi'r papurau wrth eu onglau wrth y ffenest agored er mwyn eu dehongli. Glynodd y gwarthnod wrthyf yn hwy o lawer na'r arogl.

Yn y tai cwrw, wrth gwrs, ar ôl y sêl yr oedd llawer o'r cowntiau yn cael eu gwneud ac yr oedd peintiau i'w cael yn hael yn nharth y gwirod. Y syndod yw nad es i yn slotyn, ond effaith hollol groes â gafodd y profiad arnaf. Roeddent ni'n bwyta yn y tai hefyd: Bryncir, Sam, a Thŵr Celyn, Llannerchymedd, lle y byddem yn gofalu fod y drofars sychedig yn cael eu diwallu: Dic Moelfra, Sioni a William Morris, a oeddent yn werth eu meithrin, nid yn unig fel gyrrwyr ond fel cefnau soled ym mhob cweryl.

Yn y Sarn y byddai'r cinio gorau:

tatws newydd a chig, a llysiau o'r ardd, pwddin reis a chyrains, a llaeth enwyn ffres o'r corddwr. Yr oll yn cael eu cludo inni gan Jeni Jones lygadlas — Nia Ben Aur Llŷn, o annwyl goffadwriaeth.

Tua'r adeg honno y cefais gyfrifoldeb ychwanegol o sgrifennu yr adroddiadau wythnosol am y marchnadoedd da tewion a'r dofednod ar gyfer yr Herald. Fi hefyd, ran amlaf, fyddai'n paratoi a stampio'r ticedi bwyd ar gyfer porthmyn Llangefni a fyddai'n buddsoddi cannoedd mewn cig eidion, pan oedd hwnnw yn cael ei gynhyrchu heb gynorthwy traed ceiliogod a phennau defaid. Dim ond prynwyr a gwerthwyr oedd yn teilyngu'r ticedi, ond unwaith rhoddais ddau i hen gwpwl a oedd wedi cerdded eu buwch o berfeddion y sir ers y plygain ac yn bwriadu ei cherdded yn ei hól am eu bod wedi cael siom yn y pris, a hwythau ar eu cythlwg. Doedd hynny ddyliwn, fel y cefais wybod yn hallt, ddim yn hyrwyddo'r farchnad — trugarhau wrth y gwan. Doeddwn nhw ddim wedi dod ag elw.

Roedd gan y genethod ddiddordeb mawr mewn materion caru — rhai pobl eraill — ac os oedd rhywun wedi bod mewn sêl, yn enwedig yng nghefn gwlad, roeddent ar dân i gael yr hanes gan ei bod yn ffaith dderbyniedig y byddai rhyw lodes leol wedi aros ar ôl i'r pen i gael sylw'r clarc. Wn i ddim beth oeddent nhw'n ei weld ynom ni, os nad oedd yna rhyw wawr lewyrchus o'n cwmplas am ein bod yn trin miloedd o bunnau bob dydd — ysgatfydd, miloedd pobl eraill, ac fod gennym ddisgwyliadau gobeithiol i'r dyfodol.

Bu helynt unwaith efo genod Peacocks y drws nesaf. Roedd eu hystafell bincio ar yr un llawr a'n ystafell gefn ni a doedd y palis a oedd yn gwahanu ddim yn llawn gyrraedd y nenfwd mewn mannau. Drwy sefyll ar ben cadair gellid gweld, ar adegau, ryfeddodau. A ni un diwrnod yn manteisio ar y fraint clywyd sgrechadau aflafar a sŵn traed yn dychlamu i lawr y grisiau. Ymhen munudau, pwy ymddangosodd ond rheolwr Peacocks yn goch ei wyneb, ac yn bygwth cyfraith ar y sbecwyr. Roeddent, meddai, wedi difetha enw da ei siop a tharfu ar ei fasnach, gan fod rhai o'i enethod wedi rhuthro i lawr i'r siop yn eu peisiau gan achosi cynnwrf mawr. Gwadwyd yr holl gyhuddiad wrth gwrs gan roddi'r bai ar lygod yn y to, ond trannoeth daeth dyn i gau y bylchau yn y palis. Amser

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi
a phob math
o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: (01286)
650552

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!
Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



Siop Trin Gwallt SANDRA

**Stryd Fawr
DEINIOLEN**

Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

cinio aethom am dro rownd siop Peacocks o ddireidi. Roedd hi'n ddigon hawdd dweud pwy oedd genethod y peisiau: roeddent i gyd yn gwrido.

Yr arwerthiannau tristaf oedd y rhai ymadael yn y ffermydd ar ddiwedd y tymor. Oes o lafur yn cael ci chwalu o ganlyniad i farwolaeth neu fethiant. Cofiaf am un arbennig yn Sir Fôn: ffermwr gweddwr wedi marw yn ddi-ewyllys gan adael ei ddwy ferch i ymryson am ei eiddo. A dyna'r arddangosfa waethaf o anghydfod teuluol a welais erioed yn gyhoeddus. Ar ôl mynd drwy'r stoc a'r celfi daethpwyd at y dodrefn a'r eiddo personol. Roedd y ddwy ferch, un o bobtu'r cylch, yn codi ar ei gilydd nes gyrru pethau i fyny i ddengwaith eu gwerth. Roedd y rhan fwyaf o'r dorf wedi gwared a chilio o gywilydd. O'r diweth daethpwyd a'r ci defaid a gwn yr hen fachgen — Purdey prydfwrth wedi ei gadw'n dda — ac erbyn hynny roedd y merched wedi mynd i sgrechian eu cynigion, a doedd gen i ddim dewis ond cofnodi'r prisiau. Trannoeth pan oeddwn yn cydbwysu'r sêl daeth galwad ffôn oddi wrth un o'r gwŷr yn dweud fod y rhan honno o'r arwerthiant wedi ei dynnu yn ôl ac i'w groesi oddi ar y llyfrau.

Yr oeddem ar delerau da â'r drofars bob amser ac yn gofalu eu bod yn cael eu gwob ddyledus. Aml waith y bŵm yn gyrru gwartheg — i'w trycio yng ngorsaf Llan-nerchymedd — drwy'r dref yng ngolau'r lleuad hefo lantar beudy, yn cael ein dilyn gan haid o blant fel y Pibydd Brith, a'r mamau ar ben y drysau yn gweiddi melltithion. Unwaith aeth bustach i mewn i dŷ yno, gan dagu yn y fynedfa, a'r cwbl a welam y tu hwnt iddo oedd hen wraig a'i chefn ar fur y gegin yn tyllio ei hances. Daeth yn rhydd ddyliwn rhywdro cyn y bore, ac yr oedd Dic yn dweud wedyn na chafodd yr hen garpan erioed well riwbob.

Un diwrnod daeth negesydd o'r *Herald* yn dweud fod y golygydd awydd fy ngweld. Wrth fynd i lawr y grisiau roeddwn yn dyfalu wrthyf fy hun: be ydw i wedi'i neud rŵan? Roedd y golygydd, fodd bynnag, yn hynod glên. Ar ôl sicrhau mai fi oedd awdur adroddiadau'r da tewion, yn gynhwysedig ym mha rai yr oedd ymestyniadau dianghenrhaid am y tywydd ar y diwrnod ac ansawdd yr anifeiliaid a'r dynion, ac yn y blaen. Temtasiwn pob llenor. Gofynnodd imi, 'Fasa chi'n hoffi dŵad yma yn ohebydd?'

Peiriant Mawr . . . a phlant bach



Cafodd plant dosbarth lleiaf Ysgol Dolbadarn fore da yng Ngorsaf Ddan Llanberis yn ddiweddar. Cawsant groeso mawr gan aelodau'r Frigad Ddan.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r gangen leol yn y Ffestri, nos Lun, Ebrill 15fed. Y wraig wadd am y noson oedd Mrs Julie Jones, Ceunant, yn arddangos y grefft o

weithio gyda cwilsyn. Ar derfyn ei sgwrs cyflwynodd enghraifft fel anrheg ac fe'i henillwyd gan Mrs Eirlys Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Euronwy Roberts a Mrs Eirlys Williams. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Jennie Roberts, gan Mrs Gwawr Morris.

Cynrychiolir y gangen yn y Cyfarfod Blyneddol Cyffredinol yng Nghaerdydd ar Fehefin 5ed gan Miss Alice Williams. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Lun, Mai 20fed ym Mwyty Cae Coch yn Llanberis pryd y trafodir yr argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blyneddol.

Cymdeithas y Chwiorydd: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r tymor 1996 yn y Ffestri, nos lau, Ebrill 18fed, dan lywyddiaeth Mrs Ifanwy Jones. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan anfon cofion at rai aelodau na allai fod yn bresennol. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan y llywydd yn seiliedig ar Wyl y Pasg, a chyflwynodd y gŵr gwadd, sef y Parchg H. Gwynfa Roberts, Llanwnda. Cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol yn ei gwmni yn trafod ei gasgliad arbennig o

wahanol boteli. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mrs Jennie Hughes. Rhoddwyd y te gan Mrs Dwynwen Williams a Mrs Ellen George.

Bydd cyfarfod y mis nesaf ar Fai 2il pryd y disgwylir Mr T. Gwynn Jones, Porthaethwy, i roi sgwrs. Bydd hwn yn gyfarfod cyhoeddus ac estynnir croeso cynnes i bawb i'r Ffestri am 7 o'r gloch.

Yn ystod y mis bu alodau o'r Gymdeithas yn casglu tuag at y Genhadaeth. Trosglwyddwyd y swm o £64.10 at waith cenhadol Sasiwn Chwiorydd y Gogledd.

Oedfaon mis Mai Eglwys M.C. Brynrefail:

5: Cymanfa Dosbarth Padarn yn Rehoboth, Nant Peris am 2 a 6.
12: Parchg John Glyn, Waunfawr (10)
19: Mr Meirion Evans, Lerpwl (5.30)
26: Mr David Williams, Bethel (10)

DRAENOG



Mae nifer o drigolion Bethel yn ceisio gweld beth yw arwyddocad y stribedi coch, hardd sydd wedi ymddangos ar ffyrdd y pentref. Gofynnir i'r Eco gyhoeddi, ar ran y Cyngor newydd, mai yno i arafu'r drafndiaeth mae'r stribedi ac nid i arafu un o gricedwyr yr ardal sydd wedi dechrau rhedeg(?) i ystwytho'i hun ar gyfer tymor newydd.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.



SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR

Basgedi Blodau Sych ★ Siwtnei
Jams ★ Briwgig ★ Siampw
Clustogau ★ Ewyn Baddon
Olewon Aromatherapi

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. — 4 p.m.

Ffôn: (01286) 650721

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Gwellhad: Dymunwn wellhad buan i Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, sydd heb fod yn dda ei hiechyd ers wythnosau bellach. Yr un yw ein dymuniad hefyd i John Edwards, Haulfryn, Ffordd yr Orsaf, sydd yn derbyn triniaeth yn ysbyty arbennig Whiston, Lerpwl, yn dilyn damwain erchyll yn ei waith. Deallwn ei fod yn gwella'n araf — brysiwch adref.

Cylch Meithrin Llanrug: Yn ddiweddar bu swyddogion a ffrindiau y Cylch Meithrin yn brys iawn yn ceisio casglu arian at y Mudiad.

Mis Mawrth cafwyd Noson Goffi ac Adloniant yn yr Ysgol Gynradd a chafwyd cefnogaeth dda. Mawrth 27, mwynhawyd noson o Bingo yn yr Ysgol. Diolch i bawb a fu mor hael gyda'u anrhegion. Ddechrau Ebrill trefnwyd cael byrddau gwerthu nwyddau newydd ac ail-law yn Ysbyty Gwynedd. Ebrill 8 mwynhawyd bore difyr iawn gan blant a rhieni yn Stiwdio Capel Mawr yng nghwmni Fflip y Gwningen a Beca'r lâr ar set 'Migmas'. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael paentio'u hwynebau fel gwahanol anifeiliaid. Mae ein diolch yn fawr i Angie a Dyfan Roberts am gyflwyno'r arian a wnaed i gronfa'r Ysgol Feithrin.

Ddiwedd y mis gobeithir cael bwrdd cacennau ar y Maes yng Nghaernarfon. Byddwn yn falch o unrhyw gyfraniad.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi gweithio mor galed ac sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd i chwyddo coffrau'r Cylch Meithrin.

Cydymdeimlwn â Mr Donald Pritchard, Neil a Nigel, Ty'n y Ffordd, Ffordd Minffordd a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Bu farw Mrs Glenys Pritchard ar ddydd Gwener y Grogllith.

Y Clwb Ieuenctid: Mae'r Clwb yn awr ar gau tan mis Medi, a hynny ar ôl blwyddyn brys iawn. Buom am dripiu i Lannau Dyfrdwy i sglerio ddwywaith; i'r Rhyll i fowlio; a chawsom benwythnosau o weithgaredd yn Rhyd-ddu ac yng Nglan-llyn, Y Bala.

Yn ystod y ddau dymor cafodd yr aelodau droi eu dwylo at losgi ar goedyn, cerfio coed, gwnio hetiau, crochenwaith, paentio ar sidan, gwneud crempogau ac afalau siocled. Cafwyd nosweithiau i drafod materion fel iechyd, cyfle cyfartal, hela, a Chymru.

Cymerodd aelodau'r Clwb ran yng nghystadlaethau clybiau Arfon a Gwynedd a bu llawer o nosweithiau yn brys yn paratoi gwaith ar gyfer Eisteddfod Clybiau Gwynedd. Paratôdd aelodau hyn y Clwb bwffe ar gyfer noson ola'r tymor a chawsom noson o ganu Carioci.

Dymunwn ddiolch i brifathro, llywodraethwyr a gofawr Ysgol Brynrefail am eu cydweithrediad ar hyd y flwyddyn ac hefyd i'r aelodau eu hunain am gydweithio gyda ninnau yr arweinyddion i'n galluogi i gael blwyddyn mor lwyddiannus.

Plaid Cymru: Myrddin ap Dafydd oedd y siaradwr yng nghyfarfod y Blaid a gynhaliwyd yn Nghanolfan Penisarwaun, nos Iau, Ebrill 18. Fel argraffydd a bardd, naturiol oedd

Chwarae Gêm Ryngwladol



Y ddau dîm dan 9 oed o Lanrug fu'n chwarae yn erbyn timau o Iwerddon yn ddiweddar. Gweler yr hanes yn llawn ar y dudalen gefn.

iddo ddewis y testun 'Trin Geiriau', a mwynhawyd sgwrs ddiddorol gan aelodau'r gangen. Roedd yn bleser gan Miss Phyllis Ellis, y llywydd, groesawu aelodau newydd i'n plith. Diolchwyd i Ann Evans, Penisarwaun, am roi'r te a'r raffl — a enillwyd gan John Meirion Morris.

Enillwyr y Clwb Cant oedd Twrog Jones, Caernarfon, a Deiniol Evans, Penisarwaun.

Bydd Cliff a Vera Williams yn trefnu **Helpa Drysor** nos Wener, Mai 17, gan gychwyn o Ysgol Brynrefail am 6 o'r gloch. Sylwch fod y dyddiad wedi ei newid i Mai 17.

Bydd Rali Gwaith i Wynedd yn cael ei chynnal ym Mangor fore Sadwrn, 4 Mai, am 11 o'r gloch wrth y Cloc. Gwnwch ymdrech i ddod; po fwyaf fydd y nifer, cliraf fydd y neges. Cofiw'n hefyd am **Cynhadledd Arfon** ar Mai 10.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Cafodd rhai o blant yr ysgol wyliau prysur iawn. Daeth pedwar tîm pêl-droed draw o Ddilyn, sef y 'Bohemians' i chwarae yn erbyn timau pêl-droed Llanrug. Llonyfarchaidau i Geraint, Bl. 5, a Rhobart John, Bl. 3, ar gael eu dewis fel y chwaraewyr gorau.

Cafodd Urien, Bl. 5, lwyddiant yn Nhwrnament Tennis Gogledd-Orllewin Cymru a gynhaliwyd yng Nghaernarfon. Mae o bellach yn bencampwr dan 10 oed — llongyfarchiadau!

Bu rhai o enethod Bl. 4 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth gymnasteg i ddechreuwr yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau i Iola, Laura, Suzanne ac Ellen. Llongyfarchiadau hefyd i Lucy, Bl. 6,

am wneud mor ddan yn ei hadran.

Dydd Llun, 22 Ebrill, cafodd disgyblion Bl. 1 a 2 fynd am drip i Gelli Gyffwrdd er mwyn cychwyn ar eu thema. Cawsant fwynhau cerdded ar hyd y llwybrau a sylwi ar y gwahanol goed.

Anfonwn ein cofion at John, gŵr Anti Gwen. Da iawn gennym glywed ei fod yn gwella.

Enillwyr Clwb Cant mis Ebrill oedd — £24: Eirian Jones, Llys Gwyn; £12: David Pritchard, Poplars; £10: Ms A. Lynch; £5: Stacey J. Wynne, Gilfach; £4: Gareth Eifion Jones, Glanffynnon.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Myfi Roberts, 2 Plas Tirion, ddiolch yn arw i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd yn ymweld a hi tra bu yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref. Diolch hefyd am y cardiau, anrhegion a'r holl ddymuniadau da gan bawb.

Dymuna rhieni a bechgyn tîm pêl-droed 'B' Llanrug, o dan 11 oed, ddiolch o galon i Ceris, Brian a John am eu hyfforddi y tymor diwethaf.

Dymuna Mrs J. E. Jones, 15 Hafan Elan, ddiolch o galon i bawb o'i theulu a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed. Diolch yn fawr. **Merched y Wawr:** Nos Fawrth, Ebrill 16, am 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd croesawyd Mrs Catherine Watkin, sy'n feirniad cenedlaethol ac uchel ei pharch ym myd Cerdd Dant, atom gan y llywydd, Mrs Meirwen Lloyd. Treuliwyd orig ddifys dros ben yn gwrando arni yn olrhain ei hanes yn symud o fan i fan o gwmpas Cymru fel myfyrwraig a gwraig i



Rhai o aelodau'r Clwb Ieuenctid yn arddangos eu gwaith.

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

LLANRUG — parhad

weinidog. Gwynfyd iddi oedd agor ambell ddrws a hel atgofion melys iawn am y gwahanol fannau. Cychwynnodd yn ei man genedigol, sef Rhydymain, a chanodd alaw werin 'Yn y Môr y Byddo'r Mynydd'. Yna, dyddiau coleg yng Nghaerdydd, gan gofio am Eglwys Gadeiriol Llandaf. Darllenodd ddetholiad o awdl O. M. Lloyd ac fe ganodd emyn y Parch Emlyn Jenkins. O Gaerdydd wedyn i Fôn ac i Langeftni gan dreulio blynyddoedd hapus fel athrawes cerdd yn Ysgol Gyfun Llangefni. Adroddodd inni nifer o alawon gwerin Môn. Yna symud i Ddyffryn Clwyd ac ymuno ym mwrlwm y cymdeithasau yno — dosbarth nos Gwilym R. Jones, twmpathau dawns, ac aelod o Barti'r Nant. Darllenodd yn hynod effeithio gerdd Gwilym R. i 'Ddyffryn Clwyd'. Symudodd wedyn yn ôl i Rydymain am gyfnod byr cyn mynd i Landysul ar lan Afon Teifi. Cafwyd datganiad ganddi ar y delyn o 'Tangnefeddwyr'

**Plaid Cymru Llanrug
HELFA DRYSOR
Nos Wener, Mai 17
cychwyn am 6.00
wrth Ysgol Brynrefail**
Croeso i ffrindiau ac aelodau
Manylion gan
Vera a Cliff Williams
Ffôn: 674878

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i bregethu'r neges yn ystod yr wythnosau nesaf:

- MAI
5: Dim Oedfa
12: Parchg W. R. Williams (10)
19: Parchg Ronald Williams (2)
26: Parchg W. R. Williams (10)
MEHEFIN
2: Parchg Gwynfor Williams (2)
9: Mr Huw Jones (2)

Tafarn Bryngwna: Croeso i Derek a Margaret Pickering yn dafarnwyr newydd Bryngwna.

Tynfa Fisol: Enillwyr tynfa fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Ebrill oedd — £40: J. L. Morley, 8 Erw Wen (59); £25: R. Chambers Jones, Hafod Wen, Penrhos (94); £15: Bob a Jini Owen, 1 Erw Wen (86); £5: Viv Morgan, Tyddyn Uchaf (6). Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

Y Cyngor Newydd: Cafwyd sgwrs anffurfiol gyda'r Cynghorydd Eurig Wyn yn Nhafarn Bryngwna yn ddiweddar. Bydd eich cynrychiolydd ar y Cyngor Gwynedd newydd yn ymdrechu'n galed i leihau cyflymder y drafndiaeth drwy'r pentref a sicrhau man chwarae i'r plant lleiaf yng nghanol y pentref, cyn yr etholiad nesaf.

Cyngor Cymuned: Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn y Waunfawr, nos Wener, Ebrill 26ain. Roedd y materion canlynol o ddiddordeb i Ward Caeathro:

— penderfynnu gofyn i Gyngor Gwynedd am swyddog datblygu



Miss Megan Humphreys yn derbyn tusw o flodau gan Meirwen Lloyd, Llywydd Merched y Wawr, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

(Waldo). Wedi wyth mlynedd yno, symud i Dreforus a chyfarfod â'r Prifardd Robat Powel ac fe ddarllenodd ddetholiad o'i awdl ef 'Cynefin'.

Gorffennodd ei hatgofion melys gydag emyn-dôn Penfro Rowlands, 'Blaenwern'. Ei dymuniad hi, fel ein dymuniad ni, yw y cedwir ein hiaith a'n hetifeddiaeth. I gloi noson amrywio a diddorol dros ben cafwyd datganiad gyda'r delyn o gerdd Eifion Wyn, ie, 'Mynwn gael siarad ein hiaith ein hun.'

Diolchwyd i Mrs Watkin gan Mrs Jennie Williams gan fawr obeithio y daw atom eto'n fuan.

Llongyfarchwyd Miss Megan Humphreys ar ddathlu ei phen-

blwydd yn 90 oed a chanwyd 'Pen-blwydd Hapus' iddi gyda'r delyn a chyflwynwyd tusw o flodau iddi gan aelodau'r gangen.

Diolch i Megan, Carys a Gwenda am wneud y banded. Enillwyd y raffl gan Phyllis Ellis.

Trefnir trip diddorol i Llyn ym mis Mehefin — enwau i Mary Roberts, Gwyndy, os gwelwch yn dda.

'Basgedi Crog' fydd dan sylw yn y cyfarfod nesaf a gynhelir nos Fawrth, Mai 14 am 7.30 o'r gloch.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: (01286) 870440

Camera yn ngofal John Pritchard Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

Marwolaeth: Yn dawel yng nghartref ei merch, Eirian, yn Ty'n y Coed, Nant y Garth, bu farw Mrs Annie Mary Griffith, 5 Bro Glyder. Bu Mrs Griffith yn byw yn y Nant am dros ddeng mlynedd ar hugain ers symud yma o Gapel Curig. Oherwydd gwaeledd treuliodd y misoedd olaf yng nghartref ei merch ble cafodd pob gofal, ac yr oedd yn chwith hebddi hi a'i phriod yn y Nant. Cydymdeimlwn â'i phriod, Dafydd Emrys Griffith, a hefyd eu merch Eirian a'r teulu i gyd o golli un mor annwyl.


Y Gymanfa: Cynhelir Cymanfa Ganu Dosbarth Padarn yng nhapel Rehoboth, ddydd Sul, Mai 5, am 2 a 6 o'r gloch. Edrychir ymlaen at groesawu plant ac oedolion

lleol.

- gwneud ymholiadau ynglŷn â'r posibilrwydd o godi lloches i deithwyr bws cyferbyn â phrif mynedfa Glangwna.
- cefnogi'r ymgyrch cael llecyn chwarae i'r plant lleiaf yng nghanol Caeathro.
- addewid y Cyngor i godi arwydd rhybuddio am beryglon mynedfa Caeathro Bach.
- cyfrannu £150 tuag at ffensiô ardal chwarae y plant ar y cae chwarae.
- trafod y posibilrwydd o godi arwydd coffa Syr William Preese.
- cwyno wrth Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r dympio uwchben y cylchdro.
- codi arwydd ar gyfer 'Hen Gapel'.
- pwyso ar Gyngor Gwynedd gosod palmant rhwng Hen Gapel a Llwyn Celyn.

Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT

BRYN
(B & K Williams)



**Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG**
Ffôn: 677482

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

Llongyfarchiadau i Mis Megan Humphreys, Cadnant, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar y 3ydd o Ebrill. Dymuniadau gorau iddi.

Croeso i ddau deulu sydd wedi symud i'n plith yn ddiweddar. Maent yn byw yn Oerddwr a Dwyfor, Rhesdai Minffordd. Gobeithio y byddant yn hapus yma yn ein plith. **Diolch yn fawr iawn** i'r rhai a gyfrannodd nwyddau ac arian tuag at y Ganolfan. Mae popeth yn helpu. Diolch.

Diolch: Fe hoffwn i, Megan Humphreys, Cadnant, 4 Tai Tan-y-coed, Llanrug, gymryd y cyfle hwn, drwy gyfrwng Eco'r Wyddfa, i fynegi fy niolch i bawb a gysylltodd â mi i fynegi eu dymuniadau da, caredig ar achlysur fy mhen-blwydd yn 90 mlwydd oed yn ddiweddar.

Rhy luosog yw y cardiau pen-blwydd, llythyrau, galwadau ffôn a'r anrhegion i'w cydnabod yn unigol.

Diolch i bawb fu'n cysylltu â mi mor garedig.

Braint yw cael by mewn bro ac ardal mor gyfeillgar a charedig.

Unwaith eto fy niolchgarwch gwresocaf i chwi oll yn gyfeillion, cymdogion a theulu am wneud y diwrnod yn un hapus a diolchgar.

eglwysi'r Dosbarth i'r Nant unwaith eto. Yr arweinydd fydd Mrs Deilwen Hughes, Bethel.

Dei a Tom: Llongyfarchiadau i Dei a Tom Tomos am y gyfres o raglenni a welwyd ar S4C dros chwe wythnos yn ddiweddar. Roedd dilyn anturiaethau'r ddau frawd yn hynod ddiddorol, ac roed dyn hawdd edmygu eu dawn a'u menter wrth iddynt ddringo mewn gwahanol rannau o'r byd. Roedd y 'cyflwyno' — ar ffurf sgwrsio hwylio rhwng y ddau — yn ychwanegu at ddiffrwch y rhaglenni. Melys moes mwy.

Dymuniadau Gorau: Anfonwn ein cofion gorau at Mr Gwilym Searell Jones, Gwynant, gan obeithio y cawn dywydd braf yn fuan fel y caiff gyfle i fynd am dro yn y pentref a chrwydro tua'r capel ambell bwn Sul. Brysiwch wella.

Diolch: Dymuna Mrs Nancy Williams, Tanybryn, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu holl anrhegion, cardiau, galwadau ffôn, a'r blodau hardd ar achlysur ei phen-blwydd yn wyth deg oed. Diolch o galon.

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Sadwrn
10.00 — 4.30

Ffôn: (01286)
870922

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Arwyn, Carys a Karrah fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae'r tri wedi llwyddo hefyd yn eu arholiadau cornet, gradd 2, yn ddiweddar.

Capel y Tabernacl: Cynhaliwyd Cymanfa Annibynwyr y cylch yng Nghapel Bosra, Penisarwaun, ddydd Sul, Ebrill 21, gyda gwasanaeth y plant yn y prynhawn ac i'r oedolion yn yr hwyr.

Adref o'r Ysbyty: Croeso cynnes iawn adref i Mrs N. Williams (Anti Nel), Pantafon, ac rydym yn falch o glywed ei bod yn gwella.

Cydymdeimlad: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Idwal Williams, Elidir View, yn ei brofedigaeth o golli chwaer yn Llanberis yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Mrs Ellen Williams, Pantafon, ar fod yn hen nain unwaith eto. Ganwyd mab bach, Huw, i Petrina Guinan, Aberhonddu, wyres i Mrs Williams a merch y ddiweddar Mrs Margaret Rose Winder.

Undeb y Mamau: Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan ein rheithor, y Parchg Philip Hughes, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Sandra a Karen Birbeck ac fe enillwyd y raffl gan Mrs Joan Williams.

Dechreuwyd ein cyfarfod yn Hafan Elan, a gynhaliwyd ar 1 Ebrill, trwy weddi. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Edwards, Mrs Craven a Mrs Side. Darllenwyd cofnodion o'r pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Mawrth a phasiwyd eu bod yn gywir. 'Val' o'r Samariaid oedd y wraig wadd a chafwyd adroddiad ganddi sut y

dechreuodd y mudiad a'r gwaith sy'n cael ei wneud ganddynt. Diolchwyd iddi gan Mrs Orritt ac hefyd i Mrs V. Jones a Mrs Joan Williams am drefnu'r baned. Enillwyd y raffl gan Miss Gwendoline Griffith. Bydd y cyfarfod nesaf ar 14 Mai yn Hafan Elan, Llanrug.

Newyddion o'r Ysgol: Os yw eich plentyn yn 4 oed erbyn 31 Awst 1996, ac yn bwriadu cychwyn yn yr ysgol hon fis Medi nesaf, os gwelwch yn dda, wnewch chi gysylltu â'r ysgol cyn 1 Mai er mwyn ei gofrestru.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Anti Sioned, Isfryn, sydd wedi cael triniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella fel y cewch ddod yn ôl atom.

Erbyn hyn mae Keith bron a chwblhau ei driniaeth yn Ysbyty Lerpwl ac mae mewn hwyliau da. Mae'n cael gwersi yn ysgol yr ysbyty yn y boreau — ac yn brysur ddysgu ychidig o Gymraeg i'w athrawes yno! Cofion gorau atat Keith.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Mawrth oedd Mrs June Steele, Bryngwyn Mawr, a Mr David Cullen, Bro Rhythallt. Llongyfarchiadau iddynt.

Croeso i Miss Angela Willis o Goleg Menai atom tra'n dilyn cwrs NNEB. Hefyd bu Miss Sioned Jacques o Goleg y Llyfrgellwyr yn Aberystwyth atom am ychydig ddyddiau yn gwneud astudiaeth ar

ddatblygu darllen. Dymuniadau gorau iddi tra'n parhau ei chwrs coleg.

Mae'n braf cael llongyfarch tri o blant yr ysgol ar eu llwyddiant yn arholiad Gradd 2 yn ddiweddar. Chwarae'r corned mae Arwyn, Carys a Karrah a diolchwn yn arbennig i Mrs Margaret Jones yr athrawes deithiol am eu hyfforddi. **Yr Urdd:** Yn eisteddfod Sir yr Urdd roedd hi'n hyfryd gweld cynrychiolaeth o'r ysgol ar lwyfan

mawr y Brifysgol ym Mangor. Llongyfarchiadau i bawb am eu perfformiadau. Er cystal eu hymdrech, ni ddaeth gwobr i'r côr. Ond daeth Parti Carys a Dylan yn ail am ddawnsio gwerin dan 12 oed.

Ond uchafbwynt y dydd oedd y wobwr gyntaf ddaeth i'r triawd offerynnol, sef Arwyn, Carys a Karrah unwaith eto. Pob dymuniad da i chwi tra'n cynrychioli Sir Eryri yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro Maelor ddiwedd mis Mai.



Parti dawnsio gwerin Carys a Dylan a ddaeth yn ail o dan 12 oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Enillwyr Clwb 300 am fis Mawrth — £40: Duncan Brown, Gwelfor (111); £25: Alun Williams, 13 Bro Waun (298); £10: Ian Johnstone, Tŷ Gwyn (274).

Llongyfarchiadau i dri o blant y pentref — Sara Roberts, Nia Elin Jones a Gwion Tomos — a enillodd fedal yr un yng nghystadlaethau gymnasteg Canolfan Hamdden Caernarfon yn ystod mis Ebrill.

Dathlu Pen-blwydd Priodas: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs John Elwyn Roberts, Glaslyn, 24 Bro Waun, ar ddathlu eu Priodas Rhuddem.

Diolch: Dymuna Mr a Mrs John E. Roberts ddiolch i'w perthnasau a chyfeillion am yr holl anrhegion, arian, y blodau hardd a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Rhuddem. Diolch yn fawr iawn.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Mrs Parry, Teras Eilian, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 92 oed; ac hefyd Mrs Parry, Clydfan, hithau hefyd yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 92 mlwydd oed. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonoch.

Diolch: Dymuna Mrs Parry, Clydfan, ddatgan ei gwerthfawrogiad am yr holl ddymuniadau da, y cardiau a'r blodau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd. Diolch hefyd am y caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn ysbytai Gwynedd ac Eryri, ac yn ystod ei arhosiad yng Ngherrig-yrafon. Diolch o galon i bawb.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mr T. J. Griffith, Ty'n yr Onnen ar ddod yn daid. Ganwyd mab bach, Llywelyn Griffydd, i'w ferch Helen a'i

phriod Len; brawd bach i Ceri, Angharad, Gareth ac Aled.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Glyn Williams, Tref Eilian; Mrs Gwen Jones, Bod Arthur; Mr Rol Williams, Ardwyn; Mr O. T. Jones, Bryn Gwenallt; a Mr Gareth Jones, Glyn Ceris, adref ar ôl iddyn orfod treulio cyfnodau yn yr ysbyty.

Gobeithiwn fod Mrs Williams, Dwyfor, yn gwella wedi iddi hithau orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty wedi iddi ddisgyn.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr R. Roberts, 9 Bryn Golau, sy'n yr ysbyty.


Dymunwn wellhad buan i Manon Jones, Tref Eilian, wedi iddi orfod mynd i'r ysbyty yn dilyn damwain yn ei char.

Cydymdeimlo: Tristwch yw gorfod cofnodi marwolaeth Heather, merch ifanc a fagwyd yn y pentref. Cydymdeimlwn yn fawr â'i thad, Mr W. Lewis, 8 Ael y Bryn, a'i chwiorydd Alvona, June a Valerie, ac â'i brodyr Alan a Nigel a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Diolch: Dymuna Rol Williams, Ardwyn, ddiolch i'w berthnasau a'i ffrindiau am eu caredigrwydd a ddangoswyd iddo tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dychwelyd adref. **Tymor yr Arholiadau:** Ydi, mae'n dymor arholiadau unwaith eto. Dymunwn yn dda i bob un o'r pentref fydd yn eistedd y gwahanol arholiadau yn yr ysgol ac yn y coleg. Hwyl fawr ichi.

Ymddeoliad: Dymunwn yn dda i Neville Owen, Bryn Gwylan, ar ei ymddeoliad o'i swydd yn yr hen sir Gwynedd.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Llwyddiant: Llongyfarchiadau i Jennie Lyn, Cartref, Rhos Cynfi, ar ei llwyddiant arholiad Gradd 5 gydag anrhydedd gyda'r cornet; ac hefyd Gradd 1 gyda 'merit' ar y piano. Pob lwc iti hefyd Jennie yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn Wrecsam ym mis Mai.

Llongyfarchiadau i Elfed Morris, Llechwedd, am ennill y wobwr gyntaf am ganu unawd arbennig o dan 19 oed yn Eisteddfod Carmel, Llanrwst. Enillodd hefyd y wobwr gyntaf ar yr unawd dan 15 oed yn Eisteddfod Bontnewydd yn ddiweddar.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod ar Ebrill 1 dan lywyddiaeth y Parchg Tegid Roberts. Darllenwyd yr ohebiaeth gan Mrs Jennie Williams. Cafwyd noson ddifyr ac addysgiadol gyda'r Parchg Tegid Roberts yn trafod dogfennau llywodraeth leol, dyletswyddau gweinyddiaeth swyddogion ym musnes y plwyf yn arbennig Cyfraith y Tlawd 1601-1834.

Diolchwyd i'r siaradwr gan Mrs Gwen Griffith. Gwestai y cyfarfod nesaf, a gynhelir 13 Mai, fydd Canon a Mrs Trefor Jones, Llanfairfechan.

Eglwys Crist Llandinorwig: Cynhelir noson o ddistawrwydd nodedig yn Neuadd yr Eglwys, nos Fercher, Mai 8, am 7 o'r gloch. Bydd yr elw yn mynd i dalu am faneri newydd i Undeb y Mamau ac i'r Ysgol Sul. Byddwn yn ddiolchgar o gyfraniadau tuag at yr achos.

Clwb Elidir: Bu pedwar cyfarfod o'r Clwb yn ddiweddar. Yn y cyntaf diddanwyd yr aelodau gan Miss Jean Moeller yn dweud ei hanes, a dangos sleidiau, tra bu ar ei gwyliau yn Sicily gyda'i ffrind Miss Margaret Mathews. Diolchwyd iddi gan Mrs Jane Jones, y llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs Janet Bingham a Mrs Aileen May Jones ac enillwyd y raffl oedd Miss Moeller.

Yn yr ail gyfarfod cafwyd Cwis wedi ei drefnu gan Mrs Jennie Williams gyda Mrs Eurwen Roberts yn cadw'r marciau, a thim 'B' a orfu. Rhoddwyd y te gan Mrs Pat Evans a Miss Jean Moeller ac enillwyd y raffl gan Mrs Jennie Williams.

Yng nghyfarfod dydd Mawrth cyn y Pasg cafwyd gwasanaeth wedi ei drefnu gan Mrs Megan P. Morris a Mrs Jane Eirlys Williams. Cymerwyd rhan gan y canlynol: Mrs Jane Jones, y llywydd; Mrs Eurwen Roberts, Mrs Jane Eirlys Williams, Mrs Dolly Brown, Mrs Mair Owen, Miss Jean Moeller, Mrs Eve Braithwaite, Mrs Alwen Jones a Mrs Megan P. Morris. Diolchodd y llywydd i bawb a gymerodd ran. Rhoddwyd y te gan Eurwen a Jennie ac enillydd y raffl oedd Alwen Jones.

Cydymdeimlodd y llywydd â theulu Mrs Laura Williams (20 Hafod Olau gynt); ac hefyd â Mrs Buddug Jones a gollodd ei mham, sef Mrs Ellen Williams (Tai Bwthyn gynt). Fe fu'r ddwy yn hynod o ffyddlon yn y Clwb ers ei sefydlu. Fel arwydd o'n parch iddynt fe safodd yr aelodau mewn munudau o dawelwch.

Daeth Mrs Judith Steel o Lanfairfechan atom bnawn Mawrth, 16 Ebrill. Cafodd ei chyflwyno inni gan Mrs Megan Morris, yn absenoldeb ein llywydd. Rhoddodd sgwrs ddifyr inni ar sut i ofalu am ein traed a pha fath o esgidiau i'w gwisgo. Yn ôl y

cwestiynau a ofynnwyd iddi roedd yn amlwg fod yr aelodau yn wir fwynhau'r sgwrs. Diolchodd Mrs Eirlys Williams iddi. Rhoddwyd y te y tro hwn gan Mrs Evelyn Jones a Mrs Betty Williams ac enillwyd y raffl gan Mrs Pat Evans.

chardiau a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 90 oed ar 12 Ebrill. Diolch o galon i bawb.

Dymuna John Henry Jones a'i deulu, 94 Pentre Helen, teulu y ddiweddar Elsie Jones (2 Cremlyn, Bethel, gynt) a fu farw ar 11 Ebrill yn Ysbyty Minffordd, Bangor, ddiolch i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r blodau a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Diolch i

ac am yr holl garedigrwydd a gafodd yn ystod ei harhosiad yno.

Priodas: Ar Fawrth 30, yng Nghapel Cefn-y-waun, priodwyd lola Llywelyn, merch Mrs M. C. Griffith, Cynfi, â Rhys mab hynaf Mr a Mrs Wil Jones, Croesor. Y Parch John Pritchard oedd yn gweinyddu. Addurnwyd yr adeilad yn hardd gan Antur Waunfawr, gyda blodau gwylltion a dail y coed. Cyflwynwyd llwy garu i'r briodferch gan ei nai, Owain. Cafwyd y wledd briodas yn

Yn Un ar Hugain Oed . . .



Plant yr Ysgol Feithrin gyda Martin Geraint.

Yr Ysgol Feithrin: Mae'r Ysgol Feithrin wedi datblygu llawer ers y dyddiau y dechreuwyd hi gan wirfoddolwyr yn yr hen festri. Yn ystod mis Mawrth bu dathliadau mawr gyda Martin Geraint ac Wcw o'r 'Slot Meithrin' yn ymuno yn yr achlysur ynghyd â phlant ieuengaf yr Ysgol Gynradd. Wedi'r sioe roedd gwledd wedi'i pharatoi gan famau'r pwyllgor a hoffem ddiolch i Mrs Elizabeth Maxwell am y rhodd o gacen wedi'i haddurno.

Dymuna'r Ysgol Feithrin ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod yr un mlynedd ar hugain gan gadw ysgol o safon uchel. Diolch arbennig i'r athrawesau a'r 'Antis' — mae eu hymdrechion i'w weld yn amlwg yn hapusrwydd y plant.

Diolchiadau:

Dymuna Andrew (gynt o 94 Pentre Helen) a Gail Jones, Llanberis, ddiolch am yr anrhegion a dderbyniasant ar eu priodas ar Fawrth 29. Maent wedi cartrefu yn 38 Dôl Elidir, Llanberis.

Dymuna Rhian ac Alwyn, 2 View Terrace, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion ynghyd â'r dymuniadau da a dderbyniwyd yn dilyn genedigaeth eu merch fach, Cara Orwig. Diolch yn fawr.

Dymuna Barry a Buddug Thomas, 5 Rhydfadog, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, blodau a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Arian. Diolch yn fawr iawn hefyd am y parti annisgwyl oedd wedi ei drefnu gan ei mham a'r plant yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis.

Dymuna Mrs E. M. Williams, Y Foelas, Llanrug (8 Ffordd Deiniol gynt) ddiolch i'w theulu a ffrindiau am yr holl anrhegion, blodau a

bawb yn Ysbyty Minffordd am eu cofal caredig iawn ohoni. Diolch i'r Parchg John Pritchard a Mr Tydfil Jones, Cefnywaun, am eu presenoldeb yn yr angladd. Diolchir am y rhoddion ariannol a fydd yn cael eu rhoi i Ysbyty Minffordd, Bangor.

Ebeneser a Chefnywaun: Bu plant yr Ysgol Sul Unedig yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Annibynwyr yng Nghapel Bosra, Penisarwaun, ddydd Sul, Ebrill 21ain. Roedd tîm o fechgyn yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghornest Bêl-droed y Cyngor Ysgolion Sul yng Nghaernarfon, nos Wener, Ebrill 26ain. Y pregethwr gwadd yng Nghyfarfod Pregethu Cefnywaun ddydd Sul y Pasg oedd y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon. Cynhelir Cyfarfod Pregethu Ebeneser, ddydd Sul, Mai 12fed, am 10.30 a 5.30 o'r gloch. Y Parchg Robert O. Roberts, Morfa Nefyd fydd y pregethwr gwadd y diwrnod hwnnw. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Cyngor Eglwysig: Cynhaliwyd oedfa nos lau Cablyd yn Ebeneser dan arweiniad y Parchg John Pritchard. Gweinyddwyd sacrament Swper yr Arglwydd yn ystod yr oedfa.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd y swper blynyddol yn Nhafarn y Rhos, Rhostrehwfa, nos Fercher, Ebrill 24ain. Y Parchg Gareth Maelor Jones oedd y gŵr gwadd eleni.

Diolch: Dymuna Mrs J. Jones, 24 Rhydfadog, ddiolch o galon am y cardiau a'r cydymdeimlad a dderbyniodd yn y brofedigaeth o golli Mrs Laura Williams (Hafod Olau gynt). Diolch i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth yn yr angladd, ac i Gwynfor am y trefniadau trylwyr.

Diolch yn arbennig iawn i Carys a Huw Parry, a holl staff Willow Hall, Caernarfon, am eu gofal tyner trosti,

Y Wern, Llanfrothen. Mae lola a Rhys yn byw yn Nhegannedd, Y Waunfawr.

Llongyfarchiadau i Heather, merch Olwen Parry, Maes Gwylfa, Deiniolen gynt, a Robert Rees Evans, Cesarea. Mae Heather wedi graddio yn MRCOG ac mae newydd ei phenodi yn Gofrestrydd (Registrar) yn Ysbyty'r Frenhines Charlotte yn Llundain. Mae Gillian, chwaer Heather, hefyd yn feddyg ac mae'n galondid gweld dwy o enethod yr ardal yn ennill llwyddiant ym myd meddygaeth.

Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ei llwyddiant drwy ennill y wobwr gyntaf ym Mhencampwriaeth Cymru a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Hwyl fydd yn cynrychioli Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol ym Mhencampwriaeth Prydain a gynhelir eleni yng Nghaerdydd yn mis Medi.

Llongyfarchiadau i Urien Sion Huws, 8 Tai Faenol, ar basio gradd 3 (merti) gyda'r E^b Horn dan nawdd y Coleg Brenhinol.

NOSON GOFFI YN Y GANOLFAN

(Ysgol Gwaun Gynfi)

NOS WENER, 10 MAI

am 6.30 o'r gloch

STONDINAU:

POTELI :: TOMBOLA

CACENNAU :: ELIFFANT GWYN

RAFFL :: GWOBRAU AMRYWIOL

Mynediad: 30c (plant 15c)

Er budd GŴYL GERDD DANT

CAERNARFON A'R CYLCH 1996

(Targed y pentref yw £300)

CHWARAEON

Trebl Top — bron iawn



Wedi'r holl chwysu a dysgu tablau a 'percentages', Dafydd Roberts yw'r prif chwaraewr.

Bu'n dymor hynod o lwyddiannus i dîm dartiau'r Bedol yn Nhrydedd Adran Cynghrair Caernarfon a'r Cylch. Dyma ail dymor y tîm yn y Gynghrair ac, mae'n debyg, bydd angen tipyn o'r *Brasso* erbyn diwedd y tymor. Cynhelir y gêm ar nos Lun, gyda dwy gystadleuaeth yn cydreded â'i gilydd: 'Rownd y Bwrdd' ar gyfer wyth chwaraewr unigol, a'r '601' ar gyfer pedwar pâr o bob tîm. Bu'n gystadleuaeth glôs tua diwedd y tymor rhwng Y Bedol a Thafarn yr Albert, Caernarfon, ond yr Albert a enillodd y bencampwriaeth, o ddau bwynt yn unig. Ac yn y gystadleuaeth '601' roedd Y Bedol a'r Morgan Lloyd yn gydradd gyntaf ar ddiwedd y tymor, ond y Cofis aeth â hi ar wahaniaeth gêm. Gall tîm Y Bedol ymfalchïo ei fod yn ddiguroers y Nadolig. Mae llawer o'r clod i Trefor Foulkes, y capten. Roedd ei dacteg o gael carfan 'Rownd y Bwrdd' a charfan '601' yn llwyddiannus iawn. Ac wedi dysgu bod 'dwbl 11' yn gyfystyr â 22, mae ambell aelod o'r tîm yn meddwl mynd yn ôl i'r ysgol i sefyll arholiad TGAU mewn mathemateg!

I gloi'r tymor bydd Y Bedol a'r Albert yn ymgiprys am Gwpan Alan Pritchard, a dylai honno fod yn dipyn o gêm. A bydd edrych ymlaen garw at y tymor newydd a'r Ail Adran. Mae sôn y bydd ail dîm yn Y Bedol erbyn hynny, a dyna gyfle am ragor o dynnu coes, a rhagor o gnoi'r ewinedd.

Pencampwriaeth Tennis Gogledd-Orllewin Cymru



Bu dau o fechgyn yr ardal yn llwyddiannus yn y bencampwriaeth, a gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r Pasg.

Hefin Roberts o Lanrug oedd enillydd y gystadleuaeth dan 14 oed, ac yn ail yn y gystadleuaeth o dan 16 oed.

Bu Urien Deiniol o Benisarwaun yn llwyddiannus drwy ennill y gystadleuaeth i rai dan 10 oed.

Tlws i'r Tlws



Daeth mwy o lwyddiant i lawr plwy' pan gipodd tîm pŵl Gors Bach gwpan coffa Alun Bayliss. Dyma'r cwpan her ar gyfer timau yn ail adran Cynghrair Caernarfon a'r Cylch. Roedd y tîm yn siomedig â'u safle terfynol o bumed yn y gynghrair, ac felly roedd y garfan o ddeuddeg yn falch o gipio'r cwpan. Chwaraewyd y gêm derfynol yng Ngwesty Llyn Padarn, ac yn y fan 'neutral' honno trechwyd tîm 'A' Dolbadarn o 5 i 1. O gofio fod gwreiddiau rhai aelodau o dîm y Gors yn y Nant mae'n sicr fod tipyn o bleser yn y fuddugoliaeth. Roedd cryn ganmoliaeth i Huw Morgan y capten. Wedi tymor hir dyfarnwyd tlws chwaraewr y flwyddyn i Dewi Cefn Gwyn — dwbl

nodedig i fynd gyda thlws prif sgoriwr tîm pêl-droed Deiniolen am y tymor. Yn amlwg mae'n giamstar ar daro'r bêl i rwyd a phoced! Gobeithia'r tîm gynnal y safon y tymor nesaf, yn enwedig gyda Cig Bethel yn 'fficsio' gêm. Iddynt.

DRAENOG



Mae llawer o dalentau yn britho ardal yr Eco gyda nifer helaeth o bobl yn gallu troi eu dwylo i sawl maes. Cymerwch yr athro lleol sy'n aelod o gôr meibion nid anenwog. Fe glywodd y Draenog amdano'n teithio i Iwerddon yn ddiweddar gan ddangos ei ddawn gyda belt achub bywyd ar fwrdd yr 'Eternal Flame' (sydd byth yn mynd allan!!) neu'r HSS Stena newydd. Cystal oedd ei berfformiad fel y disgwylir Pamela Anderson i ymweld â Phenisarwaun i gynnig rhan iddo yn 'Baywatch'.

RAS CEFN DU A RAS CARREG ARTHUR

Nos Fawrth, Mai 7fed, Ysgol Gyradd Llanrug
Cofrestru am 6.30. Rasmus yn cychwyn 7.15

Dosbarthiadau dros 16

Bechgyn a merched. Dan 16 a dan 14

Gwobrau ym mhob categori.

Lluniaeth ysgafn. Band Llanrug yn diddori. Raffl.

Elw tuag at Gronfa Canolfan Llanrug

Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)

a Chlustogau
gyda zip
Amcanbris
am ddim
BANGOR
(01248) 364493
unrhyw adeg

Alwyn a Sarah Jones


RACCA PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm


★ Wyau Free Range
Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

CROESAIR MAI



AR DRAWS

1. Daw rhwng 28 a 26 i lawr (na, nid 27 i lawr) (6)
7. Gwastraffu amser (8)
8. Dod i ladrata? (4)
10. Lle caeddig, cysgodol yn y goedwig (6)
11. Undeb yr unawdwy (6)
14. Hebdi hi na Miw, bydd yn ddistaw iawn (3)
16. Ble ceidw'r Cardi wyfyn yn ôl pob hanes (5)
17. Brawd loan (4)
19. Mor hir a hanner cyntaf 1 ar draws ar ôl dechrau'r cynhaeaf (5)
21. Carreg hogi (5)
22. Casgen (5)
23. Pigyn ar bedol (4)
26. Un o'r talpiau bach ar gromosôm (5)
28. Sialens i'r ferch o Loegr (3)
29. Wedi ei bwyntio (6)
30. Rhai sy'n curo brethyn i'w lanhau (6)
31. Gwastraffus fore anrhefnus (4)
32. 'A diolch byth medd Seion
- - - - -' (Gwilym Cyfeiliog) (2,2,4)
33. Un digon tebyg i 22 ar draws (6)

I LAWR

1. Ble bydd y gwenoliaid yn byw (6)
2. O, Lowri astrus, wyt ti wedi meddwi? (6)
3. Lan yn y De (4)
4. Cyfnod dinistrio y naw gwn, rhwng 26 a 28 i lawr (na, nid 27 i lawr eto chwaith!) (7)
5. Bwyd a wneir drwy ferwi blawd ceirch mewn dŵr (5)
6. Caredig (5)
7. Gweler y nodiadau
9. Cadarnhad fy mod yn darllen yr Eco bob mis (3)
12. Diysgog; trist dros ben! (3)
13. Cysylltiedig, wedi eu hieuo (5)
15. Sylwedd a ddefnyddir i doddi meteloedd (5)
18. Cas llythyr o enam? (5)
19. Morgan neu Morris (3)
20. Casglu i yrru? (3)
21. Cymedrol (7)
22. Ymyl Crib y Lodes (3)
23. Pobl o'r un dras (6)
24. Gwron carwriaethol (4)
25. Cawen (6)
26. Nid 1 ar draws, 4 na 28 i lawr. Y llall (5)
27. Prinder bwyd (5)
28. Y ferch sy'n dilyn 4 i lawr (3)
30. Bryn yn y chwarel (4)

Cefnogwch ein Hysbysebwy


ATEBION CROESAIR EBRILL

Derbyniwyd 11 ateb cywir i groesair mis Ebrill erbyn y dyddiad cau, ac o'r rhai, 8 gair gwahanol mewn ymateb i'm cais am air newydd i 4 ar draws.

CWAC meddai Elfed Evans, Llanllechid, a Mabel Parry, Porthmadog; CLOC aeth a bryd Mrs G. Gill, Bangor ac E. E. Jones, Rhoshirwauk; CLWC gan Jean Hughes Jones, Rhiw, a Mary Davies, Waunfawr; CLIC (Mrs E. W. Pritchard, Garndolbenmaen); CRIC (N. Hughes, Cwm-y-glo); CRAC (Mrs Rhiannon P. Jones, Pontllyfni); CORC gan Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; a CNOC gan Catherine A. Jones, Rhiw.

Mae CORC Dilys yn glyfar mewn mwy nag un ffordd: **Arnofio** o'r 'Werddon mae pabydd C'narfon (CO RC (Roman Catholic)) — heb sôn am yr odl unwaith eto!

Ond CWAC Elfed Evans, 12 Hen Barc, Llanllechid, Bethesda, sy'n



mynd â hi efo: **Twyllwr! pwysleisia Wil** — yw'r meddyg Seisnig (Wil Cwac Cwac wrth gwrs) — £5 mis Ebrill i Elfed felly.

Mae cymaint o eiriau yn croesi ei gilydd yng nghroesair y mis yma fel y dylai llawer mwy nag arfer lwyddo i'w gwblhau. Ar ôl gwneud hynny, bydd gair 4 llythyren yn ymddangos yn 8 i lawr, a'r dasg ychwanegol ydi creu cliw cryptig iddo.

Gyrrwch eich atebion a'r cliwiau i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn Mai 24.

Dyddiadur y Mis

MIS MAI

2. Iau **BRYNREFAIL**: Cymdeithas y Chwiorydd am 7. Sgwrs gan T. Gwynn Jones, Porthaethwy.
3. Gwener **DINORWIG**: Taith gerdded — cyfarfod yn yr Allt Ddu am 6.30 p.m.
4. Sadwrn **BANGOR**: Rali Gwaith i Wynedd am 11 y bore ger Cloc y Ddinas. Tefnir gan Blaid Cymru. Siaradwyr arbennig iawn.
3. Sul **NANT PERIS**: Cymanfa Dosbarth Padarn yn Rehoboth am 2 a 6 o'r gloch. Arweinydd: Mrs D. Hughes, Bethel.
- BANGOR**: Cymanfa'r Eglwys yn y Gadeirlan ym Mangor.
7. Mawrth **LLANBERIS**: Y gyfeillach yng Nghapel Jerusalem am 2 o'r gloch. Sgwrs gan y Parchg a Mrs H. Gwynfa Roberts. **LLANRUG**: Ras Cefn Du a Ras Carreg Arthur, cychwyn 6.30 o'r gloch o'r Ysgol Gynradd.
8. Mercher **BETHEL**: Merched y Wawr: Basgedi Blodau Crog, gan M. R. Owen.
- DEINIOLLEN**: Eglwys Llandinorwig: noson o dawelwch nodedig am 7 o'r gloch, er mwyn prynu baneri newydd i Undeb y Mamau.
10. Gwener **DEINIOLLEN**: Noson Goffi yn y Ganolfan am 6.30 o'r gloch, i godi arian tuag at Wyl Gerdd Dant Caernarfon a'r Cylch.
- LLANERIS**: Plaid Cymru: Grŵp Gwerinos yng Ngwesty Llyn Padarn.
12. Sul **DEINIOLLEN**: Cyfarfod Pregethu Ebeneser, a'r Parchg R. O. Roberts, Nefyn, yn pregethu.
14. Mawrth **CWM-Y-GLO**: Undeb y Mamau yn cyfarfod yn Hafan Elan Llanrug.
- PENISARWAUN**: Cyngor Blynnyddol Cymdeithas Llanddeiniolen yn cyfarfod yn y Neuadd Gymuned am 7.15.
17. Gwener **LLANRUG**: Plaid Cymru: Helfa Drysor yn cychwyn o Ysgol Brynrefail am 6 o'r gloch. **CAERNARFON**: Bore Coffi Pwyllgor Anabl Merched y Wawr yn Festri Ebeneser, Caernarfon, o 10 hyd 12 o'r gloch, a'r elw tuag at offer i'r byddar.
24. Gwener **LLANBERIS**: Yr Eisteddfod yn Festri Capel Coch am 6 o'r gloch.

RHODDION

£10: Teulu y ddiweddar Miss Jennie Williams, gynt o New Street, Deiniolen; Mrs Olwen Williams, Lidiart Wen, Waunfawr; Teulu Dakota, Llanberis, er cof am Mrs Dilys Roberts.

£5: Er cof am Mrs Myfanwy Jones, Llys Eryri, Llanberis; Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tanycoed, Llanrug; Mr a Mrs John Elwyn Williams, Glaslyn, Waunfawr; Mrs Parry, Clydfan, Waunfawr; Mrs C. Jones-Evans, 3 Hafan Elan, Llanrug.

£3: Rhian ac Alwyn, 2 View Terrace, Deiniolen; Mrs E. M. Williams, Foelas, Llanrug (8 Ffordd Deiniol, Deiniolen gynt); John Henry Jones, 94 Pentre Helen, Deiniolen; Mr a Mrs Evan Thomas, Llanberis; Mrs Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig.

£2: Mr a Mrs B. Thomas, 5 Rhydfadog, Deiniolen; Andrew a Gail, Llanberis (94 Pentre Helen, Deiniolen gynt).

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

Teithiau Cerdded 'NABOD BRO

Trefnir cyfres o deithiau cerdded yn y fro yn ystod y gwanwyn a'r haf. Bydd manylion yn yr Eco o fis i fis.

CROESO CYNNES I BAWB

DINORWIG A'R FACHWEN

Nos Wener, Mai 3ydd am 6.30
Cyfarfod yn Yr Allt Ddu, Dinorwig
(gohirio i'r wythnos ganlynol os bydd y tywydd yn anffafriol)
Ffoniwch: (01286) 673515

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car




YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



CHWARAEON

Pencampwraig Cymru Deirgwaith



Dros gyfnod y Pasg cynhaliwyd Pencampwriaethau Oedranau Nofio Cymru yn yr Empire Pool yng Nghaerdydd. Daeth y nofwyr o bob cwr o Gymru, yn ogystal â nifer helaeth â chysylltiadau Cymreig o glybiau Lloegr. Parhaodd y cystadlu ar y lefel uchaf am bedwar diwrnod ac enillodd Elin Dafydd o Lanrug â chlod mawr iddi ei hunan, ei hyfforddwr Hans Hellfeld o Lanberis, Clwb Nofio Caernarfon ac Ysgol Brynrefail, drwy ennill tair medal aur, dwy efydd, dau bumed, un chweched ac un seithfed safle.


Enillodd Elin y ras 200m medli unigol ar y dydd lau gan guro Zac John sy'n nofwraig brofiadol a blaenllaw iawn o ysgol fonedd Millfield. Ar y dydd Gwener enillodd

y ras 200m dull broga, ac ar y dydd Sadwrn — mewn ras hynod o gystadleuol — enillodd y ras 100m dull broga. Rhwng y rاسus yma cafodd fedalau efydd am fod yn drydydd yn y rasus 200m ar y cefn a 400m dull rhydd. Cafodd bedair medal arall am fod yn bumed yn y 100m pili-pala a'r 200 dull rhydd; chweched yn y 100m rhydd a seithfed yn y ras 100m ar y cefn.

I gyrraedd y safon yma mae Elin yn nofio am bedwar bore yr wythnos rhwng 6.30 ac 8.00 o'r gloch, a thri sesiwn awr a hanner nos Lun, nos Fercher a nos Iau. Mae hi'n falch iawn o'r cyfle y mae bod yn aelod o Ganolfan Berfformio Arfon yn ei roi iddi.

Y Gwyddelod yn eu holau eto

Mae cysylltiad yr ardal hon â'r Iwerddon yn cryfhau o flwyddyn i flwyddyn. Rai misoedd yn ôl bu tîm hoci Swydd Delyn yn cymryd rhan yn agoriad swyddogol cae-pobtywydd Ysgol Brynrefail. Ac yna, bythefnos yn ôl, daeth carfan ieuenctid Clwb Pêl-droed Bohemians, o Ddelyn, i chwarae yn erbyn Llanrug. Roedd y Gwyddelod yn aros yng ngwersyll Butlins. Cefais innau fy nghyfle i ddyfarnu fy gêm 'rhyng-wladol' flynyddol rhwng y timau dan 16 oed ar gae Eithin Duon.



Hogyn o Ddu-lyn a Reffari Di-lun Mwynheais y profiad a braf oedd gweld dau dîm yn rhoi o'u gorau, a hynny mewn ysbryd iach, a heb y rhegfeydd a glywir ar gae pêl-droed mor aml. Braf oedd gweld rhai o aelodau pwyllgor Clwb Llanrug yn y gêm, a chael help llumanwr dibynadwy. Roedd y baned yn dderbyniol iawn hefyd. Cafwyd gêm dda, a'r Gwyddelod a enillodd o 3 gôl i 1. Roedd Liam, chwaraewr canol



Tîm dan 11 oed Llanrug gyda'u rheolwr, Deiniol Evans, cyn y gêm yn erbyn y Bohemians o Iwerddon.

cae y Bo's, yr un ffunud â Roy Keane yn chwaraewr diflino a sgoriodd ddwy gôl wedi rhediadau cryf o ganol y cae. Yr unig wahaniaeth rhyngddynt oedd bod Liam yn gwenu llawer mwy na Keane.

Cafwyd gêmiau dan 9, dan 11 a than 12 oed hefyd, ar faes Ysgol Brynrefail, ac roedd y gêm dan 12 yn arbennig o gyffrous, gyda'r sgôr terfynol yn 4-4. Darparwyd croeso a lluniaeth yn Penbont a chyflwynwyd tlysau i chwaraewyr y gwahanol gêmiau.

Mae'r Bohemiaid wedi gwahodd tîm dan 16 Llanrug i Ddelyn i gymryd rhan mewn cystadleuaeth ieuenctid. Gwahoddwyd Glasgow Rangers a Manchester United hefyd. Dyna beth

TLWS YR ECO 1996

Mae blwyddyn arall wedi hedfan, a daeth yn amser tefnu'r noson hynod o boblogaidd yma.

Eleni, gyda galwadau TASAU ac eisteddfodau lleol, bu'n rhaid cynnal y gystadleuaeth yn gynt na'r arfer. Cynhelir hi **NOS FERCHER, 22 MAI, ar faes Ysgol Gynradd Llanrug, gyda'r gic gyntaf am 5.30 p.m.** Rhaid cychwyn yn gynharach er mwyn ceisio gorffen cyn iddi nosi eleni.

Fel arfer bydd dwy gystadleuaeth yn cydreddeg â'i gilydd — i flynyddoedd 3 a 4, ac yna blynnyddoedd 5 a 6. Gellir cael tîm cymysg gyda 7 chwaraewr ym mhob tîm. Codir tâl o £3 ar BOB TÎM, i dalu am y tlysau.

Os ydych am ddod â thîm i'r gystadleuaeth llenwch y ffurflen isod a'i HANFON yn ôl i mi (**peidiwch ffonio**), erbyn **DYDD MERCHER, 15 MAI**. Gellir talu ar y noson.

ENW'R YSGOL / PENTREF

OEDRAN Bl. 3/4 Bl. 5/6

ENW'R TÎM

ENW'R PERSON SY'N GYFRIFOL

Anfoner y ffurflen uchod i:

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel, Caernarfon
erbyn dydd Mercher, 15 Mai

CLWB YR EFAIL

Eleni eto mae'r clwb chwaraeon hwn a gynhelir yn Ysgol Brynrefail wedi paratoi rhaglen gynhwysfawr i drigolion yr ardal. Bydd y cae-pobtywydd yn adnodd arall o fantais. Y mae nod i'r Clwb, sef helpu ieuenctid i gynefino â'r ysgol uwchradd y byddant yn ei mynychu yn ddiweddarach, a hefyd yn rhoi cyfle iddynt flasu ystod eang o gampau.

Eleni fe dorrwyd tir newydd gan gynnal ambell weithgaredd y tu allan i diriogaeth yr ysgol. Yn sicr, am bris rhesymol, mae'n gyfle i flasu cwmnïaeth ac ymdrech iach. Rhoddaf yma fraslun o'r rhaglen, ond gellir cael mwy o fanylion drwy gysylltu â'r ysgol (01286) 672381. Cofiwch mai ar gyfer ysgolion cynradd blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6; ac ysgolion uwchradd, blynnyddoedd 7, 8 a 9 y mae'r Clwb.

DYDD LLUN

Badminton i oedran 10-18 yng Nghanolfan Llanberis rhwng 5 a 6 pm.

Cyfeiriannu (orienteering) i Bl. 5, 6, 7 ac 8 ym Maes Parcio Parc Padarn, Llanberis, 4.30-5.30 pm.

DYDD MAWRTH

Tenis Byr i Bl. 3, 4 5 a 6 yng Nghampfa Ysgol Brynrefail, 4-5 pm.

Tenis i Bl. 7, 8 a 9 ar Barc Coed Helen, Caernarfon rhwng 5 a 6 pm.

Ffitrwydd i oedran Uwchradd ac Oedolion yng Nghampfa Ysgol Brynrefail rhwng 5.30 a 6.30 pm.

DYDD MERCHER

Dawns a Drama i Bl. 3, 4, 5 a 6 yn Ysgol Gynradd Bethel rhwng 4 a 5 pm.

Criced i Bl. 6, 7 ac 8 yn Ysgol Brynrefail rhwng 4.30 a 5.30 pm.

Aerobig i oedranau 16+ yng Nghampfa Ysgol Brynrefail rhwng 7.30 ac 8.30 pm.

DYDD IAU

Hoci i Bl. 6, 7 ac 8 ar Cae-pobtywydd Ysgol Brynrefail rhwng 5 a 6 pm.

Dawnsio Disgo i Bl. 3, 4, 5, 6 a 7 yn Ysgol Brynrefail rhwng 5 a 6 pm.

DYDD GWENER

Gymnasteg i Bl. 4, 5, 6 a 7 yng Nghampfa Ysgol Brynrefail rhwng 4 a 6 pm.

Golff i oedran ysgol uwchradd ar Glwb Golff Caernarfon rhwng 5 a 6 pm.

Mae ystod eang yma a rhywbeth at ddant pob oed. Mae uchafswm y rhai a ellir cymryd rhan ym mhob gweithgaredd, felly cysylltwch â'r Ysgol i weld os oes lle. Cewch wybod hefyd beth yw cost pob gweithgaredd. Ymlaen â'r chwysu.